# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MERCHER, 11 EBRILL 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR** AM **10.00 AM, DYDD MERCHER, 18FED EBRILL, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

| | | |
|---|---|---|
| **4 .1** | **21AIN CHWEFROR, 2018;** | 7 - 14 |
| **4 .2** | **7FED MAWRTH, 2018.** | 15 - 24 |

5. **YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

6. **YSTYRIED YR ENWEBIADAU AR GYFER SWYDD IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

7. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

8. **CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

9. **YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**9 .1 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD LIAM BOWEN**

“Rwy'n cyflwyno rhybudd o gynnig yn gofyn i Gyngor Sir Gar creu a chefnogi cynlluniau di-blastig ar draws y Sir.

Mae'r ymgyrchoedd di-blastig hyn yn deillio o ymgyrch ehangach "Arfordiroedd Di-blastig" Surfers Against Sewage sydd yn erbyn deunyddiau plastig untro, h.y. plastig nad ydym ond yn ei ddefnyddio unwaith cyn ei daflu i ffwrdd, megis cyllyll a ffyrc plastig, poteli diodydd a blychau polystyren ar gyfer cludfwyd. Elusen cadwraeth forol yng Nghernyw yw Surfers Against Sewage sydd â'r nod o amddiffyn cefnforoedd, moroedd a thraethau.

Mae plastig untro yn fygythiad enfawr i'n hamgylchedd naturiol. Mae tua 51 triliwn o ddarnau microsgopig o lygredd plastig yn yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn pwyso 269,000 o dunelli. Mae hyn gyfystyr â 1345 o forfilod glas sy'n oedolion. Amcangyfrifir bod o leiaf 8 miliwn o ddarnau o blastig yn mynd i mewn i'n cefnforoedd bob dydd. Gall potel blastig barhau am hyd at 450 o flynyddoedd yn yr amgylchedd morol a gellir dod o hyd i fwy na 150 o boteli ar bob milltir o draeth yn y Deyrnas Unedig. Os nad yw hynny'n rhoi syniad i chi o raddfa'r broblem, mae un o bob tri pysgodyn sy'n cael ei ddal er

mwyn ei fwyta bellach yn cynnwys plastig. Mae plastig hyd yn oed yn cyrraedd ein cadwyn fwyd.

Felly, galwaf ar Gyngor Sir Gar i:

1. Lleihau deunyddiau plastig untro yn adeiladau a swyddfeydd y Cyngor gan gynnwys gwahardd gwellt a chwpanau plastig;
2. Annog busnesau, sefydliadau, ysgolion a chymunedau lleol i roi'r gorau i ddefnyddio deunyddiau plastig untro a mynd ati i ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy;
3. Hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy yn lle deunyddiau plastig untro ym mhob digwyddiad a gefnogir gan y Cyngor;
4. Cefnogi digwyddiadau glanhau traethau ac unrhyw ddigwyddiadau eraill sydd â'r bwriad o godi ymwybyddiaeth am broblemau sy'n ymwneud â deunyddiau plastig untro o dan gynlluniau "Di-blastig".

## 9 .2 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES

“Yr wyf yn galw ar y Bwrdd Gweithredol i gyflwyno tudalen e-ddeiseb ar wefan y Cyngor, sy’n debyg i'r hyn a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd.”

## 9 .3 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD KEN LLOYD

“Yng ngoleuni’r rhybudd diweddar gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y bydd yn tynnu ei ddarpariaeth Pryd ar Glud o ryw 60,000 o brydau’r flwyddyn i ryw 214 o drigolion yn Sir Gaerfyrddin yn ôl, galwaf ar y Bwrdd Gweithredol i ymchwilio i ffyrdd o leihau effaith tynnu’r gwasanaeth hwn yn ôl, ar ôl ymgynghori’n llawn â’r defnyddwyr, gofalwyr a phobl eraill sydd â diddordeb, ac yn dilyn ymgynghoriad o’r fath, cyflwyno cynigion i’r Cyngor a fydd yn rhoi sicrwydd i’r aelodau fod yr holl gamau yn cael eu cymryd i sicrhau na fydd lleihad o ran elfennau maethol a chymdeithasol y gwasanaeth llinell bywyd hanfodol hwn wrth symud ymlaen.”

## 9 .4 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JEFF EDMUNDS

“Rydym wedi ein calonogi ac yn cefnogi’r cynlluniau i adeiladu cartrefi newydd yn ardal Sir Gaerfyrddin ac mae creu’r Cwmni Tai Lleol yn sbarduno’r fenter hon.
Fel rhan o’r rhaglen hon, byddai swyddi a phrentisiaethau’n cael eu creu a fyddai’n hyrwyddo twf yn yr economi leol. Rwy’n siŵr ein bod ni i gyd yn cytuno bod angen i ni fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl o ran adeiladu a darparu ein cartrefi newydd a’n rhaglen adeiladu.
I’r perwyl hwn, mae’n rhaid ein bod yn fodlon y bydd y dull y byddwn

yn ei gymryd yn sicrhau'r budd gorau posibl er mwyn cefnogi creu cartrefi newydd a thwf yn ein heconomi leol. Felly, gofynnwn I'r Bwrdd Gweithredol edrych ar y posibilrwydd o greu ein gweithlu ein hunan i gael ei gyflogi ar gyfer dylunio ac adeiladu'r eiddo hyn oherwydd rydym o'r farn y byddai hyn yn ychwanegu gwerth i'r cysyniad cyfan. Gallwn gydweithio â Choleg Sir Gâr ar raglen brentisiaethau yn y dyfodol a fydd yn darparu gweithlu sydd â sgiliau da yn ogystal â sicrwydd swyddi ar gyfer y dyfodol agos".

**10. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN YR EITEM CANLYNOL:**

**10 .1 CYNLLUN LLESIANT SIR GÂR: Y SIR GÂR A GAREM** 25 - 48

**11. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**11 .1 26AIN CHWEFROR, 2018** 49 - 56

**11 .2 26AIN MAWRTH, 2018.** 57 - 62

**12. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:**

**12 .1 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), (CHWEFROR, 2018)** 63 - 76

**13. AELODAETH PWYLLGORAU**

**13 .1 DERBYN HYSBYSIAD GAN GRWP PLAID CYMRU YNGHYLCH PENODI AELOD YN LLE'R CYNGHORYDD KEN HOWELLS AR Y PWYLLGOR CRAFFU - CYMUNEDAU**

**13 .2 NODI BOD Y GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD KIM BROOM I GYMERYD LLE'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS AR Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**14. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**14 .1 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 7FED CHWEFROR, 2018;**

**14 .2 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 12FED CHWEFROR, 2018;**

**14 .3 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 16EG CHWEFROR, 2018;**

**14 .4 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 19EG CHWEFROR, 2018;**

**14 .5 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 20FED CHWEFROR, 2018;**

**14 .6 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD - 5ED MAWRTH, 2018;**

**14 .7 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 8FED MAWRTH, 2018;**

**14 .8 PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - 9FED MAWRTH, 2018;**

**14 .9 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 14EG MAWRTH, 2018;**

**14 .10 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 20FED MAWRTH, 2018;**

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR**

**DYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2018**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom | J.M. Charles |
| D.M. Cundy | S.A. Curry | C.A. Davies | T.A.J. Davies |
| G. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies |
| S.L. Davies | W.R.A. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds |
| P.M. Edwards | D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans |
| W.T. Evans | A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris |
| P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | A. James | J.D. James | R. James |
| D.M. Jenkins | G.H. John | C. Jones | B.W. Jones |
| D. Jones | G.R. Jones | T.J. Jones | A. Lenny |
| M.J.A. Lewis | K. Lloyd | K. Madge | A.S.J. McPherson |
| E. Morgan | A.G. Morgan | D. Nicholas | B.D.J. Phillips |
| J.S. Phillips | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | H.B. Shepardson |
| A.D.T. Speake | L.M. Stephens | B. Thomas | D. Thomas |
| E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett |
| A.Vaughan Owen | D.T. Williams | D.E. Williams | J.E. Williams |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
O. Bowen, Ymgynghorydd Ariannol Strategol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 12.20 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Campbell, A. Davies, R. Evans, S. Matthews, S. Najmi, D. Price ac E. Schiavone.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.A.L. Evans | 8 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2018/19 tan 2020/21 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2018/19; | Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin; |

| | | |
|---|---|---|
| K. Madge | 6 - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2018/19 tan 2020/21; | Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol; |
| A. McPherson | 6 - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2018/19 tan 2020/21; | Cadeirydd Elusen Iechyd Meddwl. |

**3. CYHOEDDIADAU**

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y ffaith fod Mr. Ken Evans, Porthor Neuadd y Sir, ar fin ymddeol, a dywedodd y byddai cyflwyniad yn cael ei wneud i Mr. Evans yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw i nodi'r achlysur.

**4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**5. CWESTIYNAU GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

**6. ARGYMHELLIAD Y BWRDD GWEITHREDOL - STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2018/19 TAN 2020/21**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror, 2018 (gweler Cofnod 5), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2018/19 tan 2020/21 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, pryd y bu'n manylu ar gefndir yr argymhellion ar gyfer y gyllideb oedd yn cael eu cyflwyno at ystyriaeth y Cyngor.

Dywedodd fod y setliad terfynol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2017 wedi bod yn fwy ffafriol a chefnogol i Lywodraeth Leol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, a olygai ei bod hi wedi bod yn bosibl ailedrych ar rai o'r cynigion yn y Gyllideb wreiddiol ac ystyried opsiynau pellach, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i'r cynnig diweddaraf i roi codiad cyflog. Fodd bynnag, gan mai ar gyfer blwyddyn yn unig yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu ffigurau ar lefel Awdurdod, roedd hyn yn cyfyngu ar y gallu i ragweld yn y tymor canolig o fewn y cynllun ariannol tymor canolig.

Tynnodd sylw at rai o bwyntiau amlwg y setliad; roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cyfeirio at y manylion llawn. O edrych ar Gymru gyfan roedd y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol wedi cynyddu gymaint â 0.2%, gyda Sir Gaerfyrddin yn unol â'r cyfartaledd. Roedd y setliad terfynol wedi rhoi £1.48m pellach i'r Awdurdod o gymharu â'r setliad dros dro. Roedd hyn yn dod â chyfrifoldeb ychwanegol yn ei sgil, fodd bynnag, a oedd yn cynnwys cynyddu'r terfynau cyfalaf ar gyfer gofal preswyl a chymorth rhyddhad wedi'i dargedu i fusnesau bach, a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r gwasanaethau hynny. Roedd y setliad wedi cynnwys £399k ychwanegol ar gyfer atal digartrefedd.

Dywedodd bod un o'r dilysiadau mwyaf arwyddocaol a wnaed ar y gyllideb eleni yn ymwneud â'r cynnig o godiad cyflog a wnaed gan y corff cyd-drafod ar gyfer cyflogwyr, a oedd yn rhoi codiad cyflog o 2% ynghyd â sicrhau mai'r rhai oedd ar y graddfeydd cyflog isaf fyddai'n gweld y cynnydd mwyaf yn eu cyflog. Ar gyfer


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Caerfyrddin, canlyniad hyn oedd pwynt cyflog isaf o £8.68 o fis Ebrill 2018, sef cynnydd o 8.98%, a fyddai'n cynyddu i £9.18 ym mis Ebrill 2019 a chynnydd pellach o 5.76%. Nid oedd y cynnig cyflog yn berthnasol i athrawon, a oedd yn destun trefniadau cyflog cenedlaethol ar wahân sef 2% o fis Medi 2018.

Cyfeiriwyd at Banel Ymgynghorol yr Awdurdod Ynghylch y Polisi Tâl, sydd yn wleidyddol gytbwys, ac un o argymhellion y panel hwnnw, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir er mwyn ei ystyried ar 7 Mawrth 2018, fyddai talu tâl atodol isel i staff sydd ar hyn o bryd ar bwyntiau 9 a 10 ar y golofn gyflogau, fel bod y staff hynny yn derbyn swm cyfwerth â £8.75, sef y Cyflog Byw Sylfaen a argymhellir (y tu allan i Lundain). Yn ogystal, er bod y trafodaethau ynghylch cyflogau yn dal i fynd rhagddynt, argymhellid bod y codiad cyflog o 2% i'r holl staff heblaw athrawon o 1 Ebrill 2018 yn cael ei weithredu cyn dod i gytundeb terfynol.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol nad oedd cynigion y strategaeth gyllideb dair blynedd a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2017 yn amddiffyn ysgolion yn ystod 2018-19, ond bod cydweithwyr ar y Bwrdd Gweithredol wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i gynorthwyo ysgolion lle bynnag yr oedd yn bosibl wrth geisio lleihau'r effaith ar adrannau eraill. O ganlyniad i'r cymorth ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad bu'n bosibl, unwaith eto, amddiffyn ysgolion a pheidio â lleihau eu cyllidebau a byddai cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion ar gyfer y flwyddyn nesaf yn parhau yn £108.7m. Er mwyn cynorthwyo ysgolion ymhellach cynigiwyd sefydlu 'cronfa datblygu ysgolion' a fyddai'n gweithredu ar sail debyg i gronfa ddatblygu'r Cyngor. Byddai hyn yn rhoi mynediad uniongyrchol i ysgolion at 'gronfa buddsoddi i arbed' a'u galluogi i gael cyllid ymlaen llaw ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd cost.

Hefyd cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at yr ymgynghori eang ynghylch y gyllideb a oedd wedi rhoi adborth sylweddol ar y cynigion gwreiddiol a roddwyd gerbron. Yn unol â hynny, argymhellodd fod yr addasiadau canlynol yn cael eu gwneud i Strategaeth y Gyllideb, wrth benderfynu'n derfynol ar y gyllideb, a oedd yn rhoi ystyriaeth i'r broses ymgynghori ac yn ymateb i'r adborth gan y cynigion nad oeddent wedi'u cefnogi ac a oedd â sgôr mynegai cyfartalog isel:

- gwaredu'r gostyngiad o £50k yn y gyllideb a fwriadwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cynhwysiant. Roedd gan y cynnig hwn sgôr mynegai negyddol o -0.78 a hwn oedd y cynnig oedd â'r lleiaf o gefnogaeth;
- Ailedrych ar y cynnig Gwasanaethau Dydd Gofal a Chymorth - byddai hyn yn arwain at leihad o £50k yn y mesurau effeithlonrwydd a fwriadwyd ar gyfer 2018/19 a £25k ar gyfer 2019/20;
- Mewn ymateb i'r pryderon gan ddefnyddwyr gwasanaeth, bydd y cynnig ar gyfer y Ganolfan Gofal Seibiant yn cael ei adolygu a gofynnir i'r adran roi ystyriaeth bellach i'r opsiynau o ran darparu'r gwasanaeth. Byddai hyn yn golygu gwyrdroi'r toriad o £200k yn y gyllideb ar gyfer 2018/19 a 2019/20;
- Bod y gronfa arfaethedig ar gyfer datblygu Ysgolion yn cael ei phennu yn £0.5m. Byddai hyn yn cryfhau'r cyfleoedd er mwyn i'r swyddog Effeithlonrwydd Ysgolion weithio gyda'r holl ysgolion gan nodi ffyrdd effeithiol o gyflwyno'r gwasanaeth.

Ystyriai y byddai mabwysiadu'r cynigion hyn yn cyflwyno cyllideb deg a chytbwys i'r Cyngor Sir, a ymatebodd i'r prif bryderon a adroddwyd yn ôl yn sgil yr ymgynghoriad. I gloi, diolchodd i'r cyhoedd am ymateb mor gadarnhaol i'r ymgynghoriad a chanmolodd waith diflino'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y

Gwasanaethau Corfforaethol a'r holl swyddogion oedd yn gysylltiedig â llunio'r gyllideb, gan gyfeirio at eu cymorth o ran cynnal perfformiad y Cyngor a darparu gwasanaethau am gost resymol i'r trethdalwr. Yna cynigiodd argymhellion y Bwrdd Gweithredol o ran Strategaeth Cyllideb 2018/19, y cynnydd o 4.45% yn y Dreth Gyngor a chymeradwyo'r cynllun ariannol tymor canolig fel sylfaen ar gyfer cynllunio ariannol yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD**

**6.1 ar Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2018/19 yn amodol ar y gwelliannau canlynol:-**

- **Gwaredu'r gostyngiad arfaethedig o £50k yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaethau Cynhwysiant;**

- **Ailedrych ar y cynnig ar gyfer y Gwasanaethau Dydd Gofal a Chymorth a fyddai'n arwain at ostyngiad yn yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o £50k ar gyfer 2018/19 a £25k pellach ar gyfer 2019/20;**
- **Adolygu'r cynnig ar gyfer y Ganolfan Gofal Seibiant a bod yr adran yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r opsiynau o ran darparu gwasanaeth gan arwain at wrthdroi'r toriad o £200k yn y gyllideb ar gyfer 2018/19 a £200k ar gyfer 2019/20;**

**6.2 Bod Treth Gyngor Band D am 2018/19 i'w gosod ar £1,196.60 (cynnydd o 4.45% ar gyfer 2018-2019);**

**6.3 Bod Cronfa Datblygu Ysgolion o £0.5m yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio'r cyllid "unwaith yn unig" oedd ar gael yn 2018-19 a'i bod yn cael ei rhoi ar waith mewn modd tebyg i'r Gronfa Ddatblygu Gyffredinol;**

**6.4 Bod y dyraniad o £148k o gyllid unwaith yn unig a nodwyd ym mharagraff 3.23 a'r £77k a nodwyd ym mharagraff 7.1 yr adroddiad yn cael eu defnyddio'n llawn i gefnogi'r newidiadau arfaethedig a'r cynigion a nodwyd uchod;**

**6.5 Bod y cynllun ariannol tymor canolig amodol yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;**

**6.6 bod codiad cyflog o 2% yn cael ei dalu i'r holl staff nad ydynt yn athrawon o 1 Ebrill 2018. Mae hyn cyn dod i gytundebau cenedlaethol ynghylch cyflog. Bydd rhaid i unrhyw addasiadau yng ngoleuni'r cytundebau terfynol hynny gael eu gwneud wedi hynny.**

## 7. ARGYMHELLIAD Y BWRDD GWEITHREDOL - RHAGLEN GYFALAF BUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2018/19 TAN 2022/23

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror, 2018 (gweler Cofnod 7), wedi ystyried y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd am y cyfnod rhwng 2018/19 a 2022/23, a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, am y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a adlewyrchai'r Strategaeth Gorfforaethol bresennol ac a gefnogai flaenoriaethau a dyheadau


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

strategol yr Awdurdod. Dywedodd fod y rhaglen gyfalaf yn rhagweld gwariant amcangyfrifedig o fwy na £200m dros y 5 mlynedd, ac mai'r nod oedd cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau strategol a'r dyheadau ar gyfer y Sir.

Rhoddodd wybod i'r Cyngor fod y cyllid ar gyfer y rhaglen hon tua £143m ar hyn o bryd a bod £55m pellach yn dod oddi wrth gyrff cyllid grant allanol. Tra bod Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwydd o setliadau refeniw'r blynyddoedd i ddod, nid oedd hyn ar gael ar gyfer cyfalaf y tu hwnt i 2018/19, ac felly roedd y rhaglen, yn unol â rhagdybiaethau cynghorau eraill, yn seiliedig ar fod benthyca â chymorth yn y dyfodol a grant cyffredinol ar yr un lefel â 2018/19. Ychwanegodd y byddai llawer o'r buddsoddiadau, megis rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Priffyrdd, Adfywio a Thai, yn gyfarwydd i'r Cynghorwyr, ond bu'n bosibl ychwanegu buddsoddiad i gynlluniau yr ystyrid eu bod yn bwysig ar gyfer y Sir. Dyrannwyd cyllid newydd o fewn yr Adran Cymunedau ar gyfer Parc Gwledig Pen-bre, Casgliadau Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin a Pharc Howard a pharhau i roi cymorth i Dai'r Sector Preifat yn 2022/23. O fewn Adran yr Amgylchedd roedd y cymorth ar gyfer Gwelliannau Priffyrdd, Cynnal a Chadw Pontydd a Chynlluniau Diogelwch Ffyrdd yn parhau i mewn i 2022/23 ac, o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gwnaed cynnydd o £2.2m yn ychwaneg i'r gwariant ar 'adnewyddu ffyrdd' y flwyddyn nesaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r swyddogion yn parhau i fonitro cynlluniau unigol a'r cyllid sydd ar gael. Tra byddai angen rheoli'r ddwy elfen hyn yn agos i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n llawn, roedd y rhaglen bresennol yn cael ei chyllido'n llawn ac eithrio'r diffyg o £1.5miliwn ym mlwyddyn 4. Yna fe gynigiodd argymhellion y Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) a'r cyllid arfaethedig ar ei chyfer, yn unol â manylion yr adroddiad. Eiliwyd y cynnig.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**7.1 bod y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a'r cyllid, fel y'u nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad, gyda chyllideb 2018/19 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2019/20 tan 2022/23 yn gyllidebau amhendant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;**

**7.2 bod cyllideb 2021/22 yn cael ei hadolygu dros y flwyddyn i ddod er mwyn ymdrin â'r diffyg yn y cyllid;**

**7.3 bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid disgwyliedig gan gyrff allanol neu'r Cyngor Sir.**

**8. ARGYMHELLIAD Y BWRDD GWEITHREDOL - CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2018/19 TAN 2020/21 A PHENNU RHENTI TAI AR GYFER 2018/19**

[NODER: Roedd y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Hysbyswyd y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2018 (gweler Cofnod 8), wedi ystyried Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2018/19 tan 2020/21 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2018/19 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfrifydd y Grŵp, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, ar ran y Bwrdd Gweithredol, ar gynigion y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai 2018 tan 2021. Roedd yn adleisio nodau'r Awdurdod yn y Cynllun Busnes 30 blynedd sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) a'n Strategaeth Tai Fforddiadwy.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y buddsoddiad cyfalaf o £231m yn y cynllun busnes presennol wedi sicrhau bod tenantiaid yn elwa ar Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, ac wrth gamu ymlaen roedd y gyllideb wedi cael ei llunio mewn modd oedd yn gofalu bod y cyllid priodol yn cael ei ddyrannu er mwyn cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy yn achos holl eiddo'r Cyngor i'r dyfodol. Dros y 3 mlynedd nesaf rhagwelid y byddai tua £30m yn cael ei wario ar gynnal a gwella ein stoc tai. Hefyd roedd y gyllideb yn darparu cyllid o ryw £26m dros y 3 mlynedd nesaf i gefnogi'r Strategaeth Tai Fforddiadwy, a fyddai'n arwain at gynnydd yng nghyflenwad y tai fforddiadwy ar hyd a lled y sir drwy wahanol atebion gan gynnwys y rhaglen adeiladu tai newydd a'r cynllun prynu'n ôl.

Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod, ers 2015, fabwysiadu Polisi Cysoni Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a olygai bod y cynnydd arfaethedig mewn rhent oedd gerbron yr aelodau wedi'i ragnodi gan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Er nad oedd y polisi hwnnw wedi newid, roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud, oherwydd y Mynegai Prisiau Defnyddiwr cymharol uchel sef 3%, efallai y byddai Awdurdodau Lleol yn dymuno ystyried defnyddio opsiwn is eleni. Ystyrid y byddai cymhwyso'r polisi fel yn y blynyddoedd blaenorol ar gyfer 2018/19 sef cynnydd o 4.5% mewn rhent ynghyd â chynnydd o £2 yn arwain at rent cyfartalog o £86.21, sef cynnydd o 5.49%, a fyddai'n annerbyniol ac yn annheg i denantiaid. Yn unol â hynny cynigiwyd bod y rhent yn cael ei osod ar y lefel isaf bosibl.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnydd arfaethedig mewn rhent yn ceisio, cyn belled ag yr oedd modd, cydnabod y pwysau sydd ar gyllidebau aelwydydd gan nad yw codiadau cyflog wedi bod yn cyfateb i'r chwyddiant cynyddol mewn prisiau. Byddai'r egwyddorion uchod yn lleihau'r baich ar yr holl denantiaid o gynnydd cyfartalog o 4.5% i 3.5% ac yn cyfyngu'r cynnydd tuag at y rhent targed i £1.62 o gymharu â'r cynnydd mwyaf y gellir ei ganiatáu sef £2. Dyma oedd y cynnydd cyfartalog isaf y gellir ei ganiatáu sy'n cydymffurfio â pholisi presennol Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar gymhwyso'r uchod, ar gyfer 2018/19 byddai cynnydd rhent o 3.5% ynghyd â chynnydd o £1.62 yn arwain at rent cyfartalog o £85.27 a oedd yn gynnydd o 4.34% neu £3.55. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn anodd cael cydbwysedd rhwng effaith y cynnydd mewn rhent ar y tenantiaid a'r angen i bennu'r rhent yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ar yr un pryd y gallai'r Awdurdod barhau i gynhyrchu cynllun busnes cynaliadwy ar gyfer bwrw ymlaen â Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a'r Strategaeth Tai Fforddiadwy.

Wrth gynnig yr argymhellion yn yr adroddiad, dywedodd fod y Pwyllgor Craffu - Cymunedau wedi cefnogi'r cynigion yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2018.
Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**8.1 Cynyddu cyfartaledd y rhent tai yn unol â Pholisi Rhenti Tai**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (targed pen isaf) h.y. :-**

- **Bydd eiddo 'rhenti targed' yn cynyddu gan 3.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 0.5%)**
- **Bydd eiddo lle mae'r rhent yn is na'r rhenti targed yn cynyddu gan 3.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 0.5%) yn ogystal â'r cynnydd mwyaf posibl o £1.62**
- **Bydd eiddo sy'n uwch na'r rhent targed yn cael eu rhewi hyd nes iddynt ddod yn unol â'r targed**

**gan arwain felly at gynnydd yn y rhent ar gyfartaledd o 4.34% neu £3.55, gan lunio Cynllun Busnes cynaliadwy, sy'n cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a darparu adnoddau i'r Rhaglen Tai Fforddiadwy;**

**8.2 gweithredu'r cynnydd mwyaf posibl o £1.62 ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed;**

**8.3 peidio â chynyddu rhenti garejis ar gyfer 2018/19 a'u cadw ar yr un lefel â 2017/18, gan bennu'r rhenti ar gyfer garejis yn £9.00 yr wythnos a'r seiliau garejis yn £2.25 yr wythnos;**

**8.4 rhoi'r Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**

**8.5 cynyddu'r taliadau am ddefnyddio gwaith trin carthffosiaeth y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn rhenti;**

**8.6 bod y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol am 2018/19, a'r gwariant mynegiannol a bennwyd ar gyfer y blynyddoedd i ddod o 2018/19 hyd at 2020/21, fel y'u nodwyd yn Atodiad B o'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo,**

**8.7 cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 (cyllidebau dangosol yw rhai 2019/20 a 2020/21), fel y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad.**

## 9. ARGYMHELLIAD Y BWRDD GWEITHREDOL - CYNLLUN BUSNES SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (CHS+) 2018-21

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror, 2018 (gweler cofnod 9) wedi ystyried Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) 2018-21, yr oedd ei ddiben fel a ganlyn:-

- egluro gweledigaeth a manylion Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf, a'r hyn y mae'r Safon yn ei olygu i'r tenantiaid;
- cadarnhau'r proffil ariannol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol, ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf; a
- llunio cynllun busnes ar gyfer y cais blynyddol i Lywodraeth Cymru am y Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) ar gyfer 2018/19++, sy'n cyfateb i £6.1m.

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai yr adroddiad a dywedodd pe bai'r adroddiad a'i argymhellion yn cael eu mabwysiadu, byddai'n arwain at wario rhyw £56m dros y tair blynedd nesaf ar gynnal a chadw a gwella ymhellach gynllun Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (£30m) a darparu'r Cynllun Tai Fforddiadwy (£26m) drwy ystod o ddatrysiadau gan gynnwys tai newydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**9.1 Cadarnhau gweledigaeth Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, ynghyd â'r rhaglen ariannol a chyflawni ar gyfer y tair blynedd nesaf;**

**9.2 Cadarnhau bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

**10. ARGYMHELLIAD Y BWRDD GWEITHREDOL - POLISI A STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018-19**

Hysbyswyd y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2018 (gweler Cofnod 10) wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wrth y Cyngor fod yn rhaid i'r Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Hefyd, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**10.1 Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018-19 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;**

**10.2 Bod y Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

**11. BWRDD GWEITHREDOL - 5 CHWEFROR 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 7FED MAWRTH, 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | D.M. Cundy | C.A. Davies | T.A.J. Davies |
| G. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies |
| S.L. Davies | W.R.A. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds |
| P.M. Edwards | D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans |
| R.E. Evans | W.T. Evans | A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey |
| C.J. Harris | P. Hughes-Griffiths | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | A. James | J.D. James | R. James |
| D.M. Jenkins | G.H. John | C. Jones | B.W. Jones |
| D. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd |
| K. Madge | S. Matthews | A.S.J. McPherson | E. Morgan |
| A.G. Morgan | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips | D. Price |
| J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | E.M.J.G. Schiavone | H.B. Shepardson |
| L.M. Stephens | B. Thomas | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett | A.Vaughan Owen |
| D.T. Williams | D.E. Williams | J.E. Williams | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| Mr M. James | - Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mrs R. Mullen | - Cyfrwyddwr yr Amgylchedd |
| Mrs W. Walters | - Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi |
| Mr P. Thomas | - Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Ms A. Bracey | - Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| Ms R. Dawson | - Pennaeth Gwasanaethau Integredig |
| Ms L. Rees Jones | - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mr A. Rees | - Pennaeth y Cwricwlwm a Lles |
| Mr D. Astins | - Rheolwr Datblygu Strategol |
| Mrs M. Evans Thomas | - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 1.20 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, S. Curry, A. Davies, D. Harries, J.P Jenkins, G. Jones, T.J. Jones, D. Nicholas, ac A.D.T. Speake.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| S.M. Allen | 10.1 – Rhybudd o Gynnig | Y newid yn y ddeddfwriaeth yn cael effaith arni'n bersonol. |
| L. Bowen | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei fam yn gweithio yn Ysgol Llangynnwr, a'i ddyweddi yn gweithio yn Uned Gyfieithu'r Cyngor. |
| C. Campbell | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei frawd a'i chwaer-yng-nghyfraith yn athrawon. |
| D.M. Cundy | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Sawl perthynas iddo'n gweithio i'r Cyngor. |
| C.A. Davies | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei chwaer yn gweithio yn Ysgol y Strade. |
| H. Davies | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol | Ei fab yn gweithio i Ysbyty Glangwili. |
| J.A. Davies | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei fab yn athro yn Ysgol y Strade. |
| T.A.J. Davies | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn chwaer-yng-nghyfraith iddo. |
| E. Dole | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei fab yn gweithio i'r Awdurdod. |
| J.S. Edmunds | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Aelodau o'i deulu'n gweithio i'r Awdurdod. |
| P.M. Edwards | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei merch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Awdurdod. |
| D.C. Evans | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei wraig yn gweithio i'r Cyngor. |
| L.D. Evans | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei ferch yn athrawes yn y sir. |
| J. Gilasbey | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol | Ei nith yn Nyrs Staff yn Ysbyty'r Tywysog Philip. |
| T. Higgins | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei chwaer-yng-nghyfraith a'i nith yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgell a'i merch yn Nyrs Staff yng Ngwasanaethau Cymunedol Eastgate. |
| A. James | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol | Ei wraig yn Brif Nyrs yn y Gymuned. |
| R. James | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019. | Ei bartner yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgell. |
| A.C. Jones | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol a 10.1 – Rhybudd o Gynnig | Y newid mewn deddfwriaeth yn cael effaith arni'n bersonol a'i merch-yng-nghyfraith yn nyrsio yn Ysbyty Glangwili. |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

| | | |
|---|---|---|
| B.W. Jones | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019. | Ei mab yn athro yn Ysgol Parc y Tywyn |
| D. Jones | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019. | Ei chwaer a'i brawd-yng-nghyfraith yn gweithio ym myd addysg. |
| M.J.A. Lewis | 10.1 – Rhybudd o Gynnig | Y newid yn y ddeddfwriaeth yn cael effaith arni'n bersonol. |
| K. Lloyd | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019. | Ei nith yn gweithio i'r Cyngor. |
| K. Madge | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol a 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018-2019 | Ei wraig yn nyrs staff yn Ysbyty Dyffryn Aman a'i ferch yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol. |
| S. Matthews | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019 | Ei dwy ferch yn gweithio ym myd addysg. |
| E. Morgan | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol | Ei ferch yn gweithio i Hywel Dda. |
| B.A.L. Roberts | 5 – Cyflwyniad ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol | Ei merch yn Ymwelydd Iechyd yn y Bwrdd Iechyd Lleol. Yn aelod o'r Cygnor Iechyd Cymuned hefyd. |
| A. Vaughan-Owen | 13 – Datganiad Polisi Tâl 2018/2019. | Ei wraig yn athrawes. |

**Datganiadau gan Swyddogion**

Datganwyd buddiant yng nghofnod 10.1 – Rhybudd o Gynnig gan Ms L. Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

Bu i'r holl swyddogion oedd yn bresennol ddatgan buddiant personol yng Nghofnod 13 - Datganiad Polisi Tâl 2018-2019.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Diolchwyd yn ddiffuant i holl staff yr Adran Priffyrdd am eu gwaith caled yn sicrhau bod ffyrdd y sir yn glir yn ystod y tywydd garw a gafwyd wythnos diwethaf. Diolchwyd hefyd i staff Adran yr Amgylchedd am glirio'r palmentydd ddydd Gwener i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel i bobl gerdded arnynt.

Estynnwyd llongyfarchiadau i nifer o drigolion ifanc o ardal Cydweli a Mynyddygarreg sy'n rhagori yn eu chwaraeon.

## 4. COFNODION - 14EG CHWEFROR, 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor oedd wedi ei gynnal ar 14 Chwefror, 2018 yn gofnod cywir.**

**5. CYFLWYNIAD GAN FWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA YNGHYLCH EI RAGLEN TRAWSNEWID GWASANAETHAU CLINIGOL**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr H. Davies, J. Gilasbey, A. James, A. C. Jones, K. Madge, E. Morgan a B.A.L. Roberts wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r cynrychiolwyr canlynol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a oedd wedi cael gwahoddiad i roi cyflwyniad i'r Cyngor ynghylch Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol:-

Ms Bernardine Rees, Cadeirydd
Mr Steve Moore, Prif Weithredwr
Dr. Phil Kloer, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Strategaeth Glinigol
Ms Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol
Ms Libby Ryan-Davies, Cyfarwyddwr Trawsnewid
Dr Meinir Jones, Cyfarwyddwr Trawsnewid Clinigol, Arweinydd Clinigol yr Uned Mân-anafiadau, Ysbyty'r Tywysog Philip

Dr Eiry Edmunds, Cardiolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Glangwili
Dr Goshal, Meddyg Anadlol Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Ysbyty yn Ysbyty'r Tywysog Philip
Mr Jeremy Williams, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Frys a Chyfarwyddwr Clinigol Gofal heb ei Drefnu
Ms Lisa Davies, Prif Reolwr y Prosiect

Dywedwyd wrth y Cyngor fod nifer o faterion strategol hirdymor yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Roedd y canlynol ymysg y prif ysgogwyr ar gyfer newid:-

- anghydraddoldebau ac amrywiadau o ran gofal;
- galw a sbardunir gan ddemograffeg;
- recriwtio a chadw staff;
- pwysau o ran perfformiad e.e. amseroedd aros;
- rhai adeiladau a chyfleusterau wedi dyddio/TG/gwybodeg/seilwaith;
- pellenigrwydd a gwledigrwydd – mynediad i wasanaethau.

Cydnabuwyd pwysigrwydd proses ymgynghori eang, hollgynhwysol, ac i'r perwyl hwn roedd *Consultation Institute,* sy'n arweinwyr byd ym maes ymgysylltu ac ymgynghori, wedi'u penodi i helpu/cynghori ar y broses ymgynghori. Cafwyd Sgwrs Fawr haf y llynedd â'r staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, partneriaid a'r cyhoedd. Hwn oedd Cam Darganfod (gwrando ac ymgysylltu) y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

Roedd y rhaglen wedi'i hen sefydlu bellach yn dilyn llofnodi Adroddiad Allbwn Achos dros Newid Cam 1 yng Nghyfarfod y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2017. Roedd y rhaglen bellach wedi cyrraedd y cam nesaf, Cam 2 – Dylunio a bydd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cam hwn yn cael ei gynnal am gyfnod o 12 wythnos o 19 Ebrill, 2018 hyd at 12 Gorffennaf, 2018.

Y canlynol yw egwyddorion allweddol y Model Gofal ac Iechyd newydd arfaethedig:-


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

- Cwmpasu'r system iechyd a gofal gyfan, a'r tu hwnt;
- Dull iechyd poblogaeth sy'n ceisio diwallu anghenion gofal lleol a helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain;
- Ategwyd gan asesiad risg o'r boblogaeth gyfan i sicrhau ymyriadau rhagweithiol sy'n cynnal llesiant, osgoi salwch, neu'n osgoi dirywiad;
- Egwyddor craidd y model yw cynghori, cefnogi a thrin pobl yn eu cartref eu hunain neu fan cymunedol lle bo modd;
- Derbyniadau i'r ysbyty ond yn digwydd pan fo hynny'n hollol angenrheidiol yn feddygol;
- Yn ganolog i'r model gofal newydd y mae Rhwydweithiau Cymunedol a gefnogir gan Hybiau Cymunedol, lle gellir darparu nifer o wasanaethau gofal ac iechyd integredig (yn cynnwys y 3ydd sector) o un lleoliad;
- Yr hybiau hyn fydd y mannau gorau hefyd i gynllunio gofal cyndriniaethol a dilynol, yn ogystal â darparu gwasanaethau arbenigol a gynlluniwyd i bobl sy'n byw â chyflyrau hirdymor;
- Ni fydd Hybiau Cymunedol wedi'u hynysu, ond yn hytrach byddant yn gwella ac yn cefnogi rhwydweithiau amlasiantaeth presennol o wasanaethau sylfaenol a chymunedol;
- Cydweithio agosach rhwng staff cymunedol a staff ysbyty yn sicrhau bod y broses ryddhau'n cychwyn pan gaiff rhywun ei dderbyn, fel y gall fynd adref cyn gynted ag y bydd wedi gwella, gyda chymorth gan wasanaeth cymunedol 7 diwrnod yr wythnos.

Roedd chwe opsiwn ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.  Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Dadansoddi am yr Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar 10 Awst, 2018 a bydd Adroddiad Cloi am yr Ymgynghori ar 13 Medi, 2018.  Bydd y rhaglen yn dod i ben drwy gyflwyno'r adroddiad terfynol i gyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd ar 27 Medi, 2018 ac yna bydd Cam 3 – Cyflawni yn cael ei roi ar waith, pryd y bydd yr opsiwn/opsiynau cytunedig yn cael eu gweithredu

Ar ôl y cyflwyniad cafwyd sesiwn holi ac ateb ac ar ôl hynny diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd am gyflwyniad rhagorol a llawn gwybodaeth.

**6. GOHIRIAD**

Am 12.00pm gohiriwyd y cyfarfod am egwyl o 5 munud.

**7. Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL**

Bu i'r cyfarfod ailddechrau am 12.05pm.

**8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**9. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

**9.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN PROSSER I'R CYNGHORYDD DAVID JENKINS, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL AR GYFER ADNODDAU**

“Yng nghyllideb Plaid-Grŵp Annibynnol ar gyfer 2018/19, cyhoeddwyd gennych gynnydd uwch na chwyddiant o 10c y pryd ar gyfer ciniawau ysgol. Wedi imi gwestiynu doethineb y penderfyniad hwn a'i effaith ar deuluoedd gweithgar Sir Gaerfyrddin, sefyllodd yr aelod o'r bwrdd gweithredol dros addysg ar ei draed a gwneud tro pedol o ran yr hyn ddywedsoch chi, ac rwy'n dyfynnu "Roeddem wedi penderfynu eleni na fyddai cynnydd ym mhrisiau prydau ysgol, ond mewn trafodaethau rwyf wedi eu cael gyda'r cyfarwyddwr a'r swyddogion, cafodd ei basio y llynedd y dylai cynnydd o 10c fod wedi bod. Wel gallaf ddweud wrthych nawr fy mod yn ceisio fy ngorau gyda'r swyddogion i gadw pris y prydau ysgol yn £2.50. Nid wy'n credu y byddwn ni'n gweld cynnydd ym mhris prydau ysgol eleni. Dyna'r hyn rydym yn gweithio'n galed i'w gyflawni." A allwch chi gadarnhau i ni a thrigolion Sir Gaerfyrddin pa bris y bydd yn rhaid i rieni ei dalu yn 2018/19 ar gyfer prydau eu plant, neu a fyddwch chi'n gwneud tro pedol ar eich tro pedol?”

**Ymateb y Cynghorydd David Jenkins, yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau:-**

“Yn eich cwestiwn rydych yn datgan “Yng nghyllideb Plaid-Grŵp Annibynnol ar gyfer 2018/19, cyhoeddwyd gennych gynnydd uwch na chwyddiant o 10c y pryd ar gyfer ciniawau ysgol" a chwestiynwyd gennych ddoethineb y penderfyniad hwn. Hoffwn nodi yn y lle cyntaf fod y cynnydd rydych yn cyfeirio ato wedi'i gynnwys fel rhan o broses pennu'r gyllideb yn 2016, pryd yr oedd y gyllideb ar gyfer 2017/18 yn cael ei hystyried a'i phennu. Yn eich araith rhoddwyd pwys o'r mwyaf gennych ar y ffaith bod hwn yn gynnydd o 10c uwch na chwyddiant ar bob pryd, gan grybwyll yr effaith byddai'n ei chael ar deuluoedd gweithgar Sir Gâr. Gofynnaf i chwi ai'r un teuluoedd yw'r rhain â'r rhai oedd yn byw yn Sir Gaerfyrddin yn 2015, pryd y bu i'r Awdurdod Lleol, ym mis Mawrth y flwyddyn honno, dan arweiniad y Grŵp Llafur bryd hynny, wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2015/16 a 2016/17, hefyd gynyddu pris prydau ysgol 10c uwch na chwyddiant. Mae hefyd yn werth nodi eich bod, yn eich ymateb yn ystod y drafodaeth ar y gyllideb, wedi cynnig cynyddu'r Dreth Gyngor i 4.95%, a thrwy hynny roi baich ychwanegol o £400K ar deuluoedd gweithgar Sir Gaerfyrddin. Yn ôl ym mis Mawrth 2015 y Cynghorydd Jeff Edmunds oedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, â chyfrifoldeb dros bennu'r gyllideb, cyn dod yn Arweinydd y Grŵp Llafur ym mis Mai'r flwyddyn honno, a wnaeth orfod ildio maes o law i lefydd ar feinciau'r wrthblaid. Mae'n ymddangos i mi bod yr aelodau gyferbyn yn colli'u cof, ddim yn siarad â'i gilydd, neu wedi penderfynu cofio'r hyn sy'n gyfleus yn unig mewn perthynas â digwyddiadau'r gorffennol.  Yn ystod y broses o bennu cyllideb 2015, datgelodd Plaid fod swm o £20 miliwn heb ei neilltuo yn y Gronfa Gyfalaf a Glustnodwyd. Nid oedd y weinyddiaeth Lafur ar y pryd fel petaent yn ymwybodol o fodolaeth y swm a doedd dim syniad ganddynt at ba ddiben y dylid defnyddio'r arian. Pan ddaeth Plaid yn rhan o'r weinyddiaeth ym mis Mai y flwyddyn honno, penderfynwyd y byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i adfywio economaidd yn y sir; proses sy'n cael ei chynnal ac yr ychwanegir ati drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Felly nid wyf yn credu y gallwn ddysgu llawer gan allu ariannol Llafur. Fodd bynnag, yr wyf yn crwydro, ac i ddychwelyd at eich cwestiwn, rydych yn cyfeirio at sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg, gan ddweud ei fod wedi gwneud tro pedol ar yr hyn a ddywedais i. Fy ymateb i hynny yw ein bod, yn y cyfarfod ar 21 Chwefror, wedi pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19, a bod y gyllideb honno yn cynnwys, ar y pryd, y cynnig i ychwanegu 10c at bris prydau ysgol. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y Cynghorydd Davies wedi bod yn poeni am y cynnydd arfaethedig hwn ers peth amser a'i fod yn teimlo'n gryf ynghylch gwyrdroi'r cynnydd hwn, ac wedyn


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

aeth ymlaen i ddweud "Wel gallaf ddweud wrthych nawr fy mod yn ceisio fy ngorau gyda'r swyddogion i gadw pris y prydau ysgol yn £2.50. Nid wy'n credu y byddwn ni'n gweld cynnydd ym mhris prydau ysgol eleni. Dyna'r hyn rydym yn gweithio'n galed i'w gyflawni." Os gall yr Adran Addysg ailedrych ar ei chyllideb bresennol i negyddu'r angen am y cynnydd o 10c y pryd, rwy'n siŵr y byddaf i a'm cyd-aelodau ar y Bwrdd Gweithredol yn gwneud pob ymgais i gefnogi'r Cynghorydd Davies i gyflawni ei amcan. Mae byd cyllid cyhoeddus yn un anwadal, er enghraifft bu i Lywodraeth Cymru ganfod cyllid ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol ar ôl Setliad Cyllidebol Terfynol mis Rhagfyr. Rydym ni fel sir wedi cael £2.2 miliwn ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd, ac mor hwyr â dechrau mis Mawrth, cafodd £880K ychwanegol ei neilltuo i ysgolion i helpu i gynnal a chadw ysgolion. Fel y gallwch weld, mae pethau'n gallu newid ac mae'n rhaid inni addasu i hynny. Ym mharagraff olaf eich cwestiwn rydych yn gofyn "A allwch chi gadarnhau i ni a thrigolion Sir Gaerfyrddin pa bris y bydd yn rhaid i rieni ei dalu yn 2018/19 ar gyfer prydau eu plant, neu a fyddwch chi'n gwneud tro pedol ar eich tro pedol?" Mewn ymateb i hynny, byddwn yn dweud bod y cynnydd o 10c mewn prydau ysgol yn dal yn rhan o gyllideb 2018/19 ar hyn o bryd, ond os gall y Cynghorydd Glynog Davies, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr ac Uwch-swyddogion yr Adran Addysg, gyflawni ei uchelgais, efallai y bydd yn bosibl ailedrych ar y cynnydd arfaethedig mewn prydau ysgol ym mlwyddyn ariannol 2018/19. Yn olaf rwyf am ofyn cwestiwn ichi, sef, os ydych yn gwneud tro pedol ar eich tro pedol, onid ydych yn ôl yn yr un sefyllfa ag yr oeddech yn y dechrau? A dyna'n union lle'r wyf i."

**Gofynnodd y Cynghorydd Prosser y cwestiwn atodol canlynol:-**

"Gofynnaf ichi, mewn difrif, ailystyried y cynnydd mewn prydau ysgol ar gyfer rhieni gweithgar Sir Gaerfyrddin."

**Ymateb y Cynghorydd David Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau:-**

"Ar ddiwedd y dydd, y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y cynnydd o 10c yn sefyll, ond os gall y Cynghorydd Glynog Davies, mewn cydweithrediad â phenaethiaid ei adran a'r cyfarwyddwr, ailnegodi eu cyllidebau a dychwelyd atom â gwell cynnig, byddaf yn hollol hapus i dderbyn hynny."

### 9.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD JANE TREMLETT, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL AR GYFER GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

"Yn ystod cyfarfod y Cyngor Sir ar 14 Chwefror, 2018, atebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol nifer o gwestiynau ar eich rhan, ond ni allai ddweud faint roedd y Cyngor wedi ei dalu hyd yn hyn i ymgynghorwyr am y prosiect i sefydlu Llesiant Delta Wellbeing Ltd. Ydych chi'n gallu darparu'r wybodaeth hon nawr? Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wrth y cyfarfod y bydd TUPE ond yn diogelu telerau ac amodau'r staff ar gyfer y diwrnod trosglwyddo. Gan mai'r Cyngor fydd yn berchen ar y cwmni newydd yn ei gyfanrwydd, pam na allwn sicrhau bod telerau unrhyw staff a drosglwyddir yn cael eu diogelu tra bydd y cwmni?"

**Ymateb y Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd:-**

“Y swm yw £28,035 ac er eglurhad, nid dyna'r hyn ddywedodd y Cyfarwddwr Cymunedau. Mae'n destun pryder mawr i mi y byddwch yn achosi gofid diangen i'r staff drwy godi'r mater hwn eto. Hoffwn atgoffa'r Aelodau bod y rhain yn bobl go iawn, ac na ddylid gwneud iddynt ofidio'n ddiangen er mwyn ennill mantais wleidyddol ganfyddedig. Felly i ailadrodd, fe'i gwnaethpwyd yn gwbl glir gennyf i a'r Cyfarwyddwr, y bydd y weinyddiaeth hon yn parhau, fel y mae wastad wedi ei wneud, i ddiogelu telerau ac amodau'r staff ar ôl trosglwyddo, a chan fod y Cyngor yn berchen y cwmni yn ei gyfanrwydd, ac mai'r Cyngor yw'r unig gyfranddaliwr, dim ond y Cyngor allai newid y sefyllfa hon. Gobeithio bod hyn yn ateb eich pryderon. Roedd yn galondid i mi bod y mwyafrif o'r cynghorwyr ar bob ochr yn deall hyn ac wedi pleidleisio yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor i ddiogelu'r gwasanaeth rhagorol hwn mewn cyfnod o newid. Y dewis arall fyddai gweld gwasanaeth gwerthfawr yn Sir Gaerfyrddin yn dirywio; rhywbeth nad yw'r un ohonom yn ei ddymuno.”

**Gofynnodd y Cynghorydd Thomas y cwestiwn atodol canlynol:-**

Rwyf yn anghytuno, cafodd fy nyfyniad bod TUPE ond yn berthnasol ar gyfer y diwrnod cyntaf o drosglwyddo, ei ddatgan gan y Cyfarwyddwr. Rwyf yn falch eich bod yn gwneud yr ymrwymiad hwn. Fel y mae'r achos busnes yn ei nodi'n glir, daw llwyddiant Llinell Gofal yn sgil staff sydd wedi ein gwasanaethu'n dda dros y blynyddoedd, ac nid ydynt wedi ceisio newid eu cyflogwr ond maent yn cael eu trosglwyddo fel bod y Cyngor Sir, drwy'r cwmni newydd, yn gallu gwerthu ei wasanaethau i ddarpar gwsmeriaid newydd. Felly rwy'n gobeithio ein bod yn dweud yn awr y bydd y staff yn cadw'r un hawliau tra bydd y cwmni, yn yr un modd â phe na byddent wedi eu trosglwyddo.”

**Ymateb y Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd:-**

“Mae'r gwe-gamera'n cefnogi'r hyn rwyf wedi ei ddweud o ran yr hyn ddywedodd y Cyfarwyddwr yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Fel rwyf newydd ei ddweud, rydym yn diogelu telerau ac amodau pob aelod o staff, yn arbennig mewn perthynas â TUPE.”

**10. YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG CANLYNOL:-**

**10.1. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD CARL HARRIS**

[NODER: Roedd y Cynghorwyr S.M. Allen, A.C. Jones a M.J.A. Lewis a Ms L. Rees Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac wedi gadael y Siambr cyn iddi gael ei hystyried.]

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Carl Harris:-

“Bod Cyngor Sir Caerfyrddin:

- Yn cydnabod ymgyrch Menywod erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth (WASPI);
- Yn cydnabod bod llawer o fenywod Sir Gaerfyrddin, a gafodd eu geni yn y 1950au, bellach yn wynebu heriau aruthrol wrth geisio cael dau ben llinyn ynghyd;


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

- Yn gwerthfawrogi nad yw menywod WASPI yn dymuno gostwng oedran pensiwn y wladwriaeth, ond yn hytrach yn dymuno cael trefniadau pensiwn gwladol trosiannol teg ar gyfer yr holl fenywod yr effeithiwyd arnynt gan ddeddfau'r pensiwn gwladol;
- Yn penderfynu cefnogi ymgyrch WASPI a chyflwyno sylwadau ar ran menywod Sir Gaerfyrddin i Lywodraeth y DU.

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o'i blaid ac aethant ymlaen i amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gefnogi'r Rhybudd o Gynnig.**

## 11. PENNU TRETH Y CYNGOR AM FLWYDDYN ARIANNOL 2018/19

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, a oedd yn nodi'r manylion ariannol perthnasol o ran pennu'r Dreth Gyngor am 2018/19, ynghyd â symiau'r Dreth Gyngor o ran gwahanol Fandiau Prisio'r Dreth Gyngor, fel yr oeddynt yn berthnasol i'r holl Gynghorau Cymuned a Thref unigol.

Nodwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ar fanylion y setliad terfynol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a'r praeseptau a nodwyd i'r Cyngor Sir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD, er mwyn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, bod adroddiad ac argymhellion Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ynghylch pennu'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2018/19 yn cael eu mabwysiadu.**

## 12. HYD Y CYFARFOD

Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol Sefydlog 9 'Hyd Cyfarfod', ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers 3 awr. Felly

**PENDERFYNWYD bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro er mwyn gallu trafod yr eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.**

## 13. DATGANIAD POLISI TALIADAU 2018-2019

[SYLWER:

1. Roedd y Cynghorwyr L. Bowen, C.A. Campbell, D.M. Cundy, C.A. Davies, J.A. Davies, T.A.J. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, D.C. Evans, L.D. Evans, T. Higgins, R. James, B.W. Jones, D. Jones, K. Lloyd, K. Madge, S. Matthews ac A. Vaughan Owen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.

2. Roedd pob swyddog a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon ac felly nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod tra cafodd yr eitem ei thrafod a thra penderfynid yn ei chylch, ac eithrio y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) a arhosodd yn y cyfarfod i ymateb i unrhyw gwestiynau a oedd yn deillio o'r adroddiad, ond gadawodd cyn cynnal y bleidlais, Pen-swyddog y Gwasanaethau Democrataidd, a arhosodd yn y cyfarfod i gymryd cofnodion, a'r Swyddog Gweddarlledu.]

Atgoffwyd y Cyngor ei bod yn ofynnol, o dan ddarpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011, i bob Awdurdod Lleol lunio datganiad polisi tâl am flwyddyn ariannol 2018-19 a phob blwyddyn ariannol ddilynol.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r datganiad polisi tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac ni ellid dirprwyo hynny i Weithrediaeth yr Awdurdod. Rhaid i'r polisi fanylu ar bolisïau'r Awdurdod am y flwyddyn ariannol o ran cydnabyddiaeth ariannol ei Brif Swyddogion, cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr oedd yn ennill y symiau lleiaf, a'r cysylltiad rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i'w Brif Swyddogion ac i'w weithwyr nad oeddynt yn Brif Swyddogion.

Mandad Panel Ymgynghorol y Polisi Tâl, sy'n wleidyddol gytbwys, yw rhoi mewnbwn o ran llunio Datganiad Polisi Tâl ac mae unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r Panel hwnnw wedi'u cynnwys yn y ddogfen derfynol, i'w chymeradwyo gan y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl am 2018-19 yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011.**

## 14. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN YR EITEM CANLYNOL:

### 14.1. GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR I'R SAWL SY'N GADAEL GOFAL

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror, 2018 wedi ystyried adroddiad yn ymwneud â Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r sawl sy'n gadael gofal (gweler Cofnod 11), a wedi gwneud argymhelliad yn ei gylch i'w hystyried gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**"mabwysiadu polisi sy'n eithrio'r rhai sy'n gadael gofal, o 18 hyd at 25 oed, rhag talu'r Dreth Gyngor.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

# CYNGOR SIR
## 18 EBRILL 2018

| |
|---|
| **CYNLLUN LLESIANT SIR GÂR: Y SIR GÂR A GAREM** |
| **Argymhellion y Bwrdd Gweithredol:-**<br><br>**Bod 'Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin – Y Sir Gâr a Garem – 2018–2023' yn cael ei gymeradwyo.** |
| **Y Rhesymau:**<br><br>Mae Cyngor Sir Gâr yn aelod statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr (ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru). Cyn i'r Cynllun gael ei gyhoeddi mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan aelodau statudol y Bwrdd.<br>Yn ogystal, y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yw'r pwyllgor awdurdod lleol penodedig i graffu gwaith y BGC. |
| Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol DO  Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau - 7 Chwefror 2108<br>Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad OES<br>Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad OES |

| | | |
|---|---|---|
| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Cyng. Emlyn Dole | | |
| **Y Gyfarwyddiaeth:** Adran y Prif Weithredwr<br>**Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>Wendy Walters<br>**Awdur yr Adroddiad:**<br>Gwyneth Ayers | **Swyddi:**<br>Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi<br><br>Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth | **Rhifau ffôn:**<br>01267 224659<br>**Cyfeiriadau E-bost:**<br>WSWalters@sirgar.gov.uk<br>GAyers@sirgar.gov.uk |

**EXECUTIVE SUMMARY**
**COUNCIL**
**18TH APRIL 2018**

| **CARMARTHENSHIRE WELL-BEING PLAN: THE CARMARTHENSHIRE WE WANT** |
|---|

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 places a duty on each Public Services Board (PSB) to develop and publish a county Well-being Plan by May 2018. As part of the preparation of this Plan, Carmarthenshire PSB has undertaken a detailed Well-being Assessment of the social, economic, environmental and cultural well-being of the county. The assessment, along with a series of engagement events were used to identify the Carmarthenshire well-being objectives for this Plan and the actions to make progress against those objectives.

The objectives and actions identified as part of this plan focus on areas of collective action that the PSB can influence by working together and does not therefore replicate what is considered to be the core business of the individual member bodies of the PSB, unless there is added value to be gained by the PSB working together.

From 11 October 2017 to the 3 January 2018 the PSB held a 12-week consultation on a first draft of the Plan (during which the Policy and Resources Scrutiny Committee were consulted). At its meeting on the 18 January 2018 the PSB considered the feedback from the consultation and further development work undertaken during the consultation period and agreed amendments to the Plan accordingly. The key amendments to the Plan are included on pages 14-18 where further information has been included against each of the actions in order to identify '*How we will do this…*' and '*Who will do this…*'. This will form the basis for a series of Delivery Groups which the PSB will now look to establish to make progress against the identified objectives and actions.

The PSB is therefore presenting its final Plan for consideration and approval by the four statutory members of the Board (Carmarthenshire County Council, Hywel Dda University Health Board, Natural Resources Wales and Mid and West Wales Fire and Rescue Authority). The Plan will then be adopted by the PSB for delivery from May 2018 onwards.

| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | YES |
|---|---|

## IMPLICATIONS

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br>**Signed: Wendy Walters, Director of Regeneration and Policy** | | | | | | |
| Policy, Crime & Disorder and Equalities<br>YES | Legal<br>NONE | Finance<br>NONE | ICT<br>NONE | Risk Management Issues<br>NONE | Staffing Implications<br>NONE | Physical Assets<br>NONE |

**1. Policy, Crime & Disorder and Equalities**
The Well-being of Future Generations (Wales) 2015 Act places a requirement on all Public Services Boards to prepare and publish a local well-being plan. Before the plan can be published is has to be approved by the statutory members of the board. The Act statutory guidance notes '*If the local authority is operating executive arrangements the local well-being plan must be approved by the full Council*'.

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**
**Signed: Wendy Walters, Director of Regeneration & Policy**

**1.Local Member(s)**
All members were able to contribute to the 12-week public consultation which took place between October 2017-3 January 2018.

**2.Community / Town Council**
All councils were able to contribute to the 12-week public consultation which took place between October 2017-3 January 2018.

**3.Relevant Partners**
All partners were able to contribute to the 12-week public consultation which took place between October 2017-3 January 2018. PSB members approved the final draft at the 18 January 2018 meeting

**4.Staff Side Representatives and other Organisations**
All staff from PSB members organisations, and any other interested stakeholders, were able to contribute to the 12-week public consultation which took place between October 2017-3 January 2018.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to InformationList of Background Papers used in the preparation of this report:**
**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Carmarthenshire Well-being Assessment | | Cymraeg<br>http://www.ysirgaragarem.cymru/media/8179/asesiad-llesiant-bgc.pdf<br>English<br>http://www.thecarmarthenshirewewant.wales/media/8178/psb-wellbeing-assessment.pdf |
| Shared Purpose:<br>Shared Future<br>Statutory guidance on the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015<br>SPSF 3: Collective Role | | Cymraeg<br>http://gov.wales/docs/desh/publications/161111-spsf-3-collective-role-cy.pdf<br>English<br>http://gov.wales/docs/desh/publications/161111-spsf-3-collective-role-en.pdf |

# Cynllun Llesiant Sir Gâr

## Y Sir Gâr a Garem — 2018-2023



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE

Public Services Board




# Cynnwys


1. Rhagair ........ 3

2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – y gofynion .. 4

3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr........ 5

4. Cipolwg ar Sir Gâr........ 6

5. Asesiad Llesiant Sir Gâr ........ 10

6. Cynllun Llesiant Sir Gâr ........ 10

7. Ystyriaethau allweddol eraill........ 11

8. Sut y cafodd y camau gweithredu i gyflawni'r amcanion eu datblygu ........ 12

9. Ffurf y Cynllun........ 12

10. Amcanion Llesiant Sir Gâr........ 13

11. Cyflenwi a Monitro........ 19

12. Gwybodaeth Bellach........ 20

Atodiad 1 ........ 21

# 1. Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Cynllun Llesiant Sir Gâr ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Gâr. Mae'r Bwrdd yn tynnu ynghyd nifer o gyrff gwahanol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Sir Gâr. Ein nod yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein trigolion drwy gydweithio i ychwanegu gwerth i wasanaethau'n gilydd, a hefyd datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ymdrin ag anghenion ein pobl a'n cymunedau. Y Cynllun hwn, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yw'r cam cyntaf i'r BGC a chafodd ei ddatblygu ar ôl llawer o ymgysylltu â staff rheng flaen, trigolion o bob oed, cynghorwyr sir a chymuned a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymgysylltu hwn wedi rhoi inni bedwar amcan llesiant allweddol y bydd y BGC yn canolbwyntio ar eu gwireddu drwy gydweithio dros y blynyddoedd nesaf:

## Arferion Iach

Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd

## Ymyrraeth Gynnar

Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn

## Cysylltiadau Cadarn

Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid

## Pobl a Llefydd Llewyrchus

Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r BGC wrth i ni symud o'r cyfnod cynllunio i weithredu. Mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i wneud cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r camau gweithredu, sydd wedi eu hadnabod yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori helaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Rydym i gyd yn awyddus i symud tuag at wneud pethau ar y cyd fydd yn gwneud gwahaniaeth i chi ein trigolion.

Mae'n bwysig iawn i mi ein bod ni fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'n gilydd i wneud Sir Gâr y lle gorau posibl i chi ein trigolion. Gallaf eich sicrhau y byddwn, gyda chymorth a chydweithrediad aelodau'r BGC a rhanddeiliaid eraill, yn gwneud popeth a allwn i wireddu'r cynllun uchelgeisiol hwn.




**Barry Liles,**
Prifathro Coleg Sir Gâr a Chadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr

Tudalen 32

# 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 — y gofynion

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwrpas cyffredin, sy'n rhwymo'n gyfreithiol, ar ffurf saith Nod Llesiant a phum Ffordd o Weithio, wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a fwriadwyd i gefnogi a gwireddu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun llesiant hwn i gyd wedi'u llunio gyda golwg ar wneud cyfraniad ehangach tuag at wireddu'r nodau llesiant cenedlaethol. Gyda'r Nodau Llesiant a'r pum Ffordd o Weithio fel fframwaith, mae'r Ddeddf yn disgwyl i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus osod gweledigaeth a rennir o ran sut y byddant yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal. Dyna ydym yn ei amlinellu yn y Cynllun Llesiant cyntaf hwn i Sir Gâr: Y Sir Gâr a Garem.

## Nodau Llesiant Cenedlaethol

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Pum Ffordd o Weithio

Fel BGC rhaid i ni sicrhau bod popeth a wnawn wedi ystyried y pum ffordd o weithio.

### Tymor hir

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

### Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

### Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

### Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

# 3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr

Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol ar draws Sir Gâr i weithio gyda'i gilydd a sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Sefydlwyd BGC Sir Gâr ym mis Mai 2016 a'i waith yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gâr.

Rhaid iddo wneud hynny drwy gynnal asesiad o lesiant yn y Sir ac yna baratoi Cynllun Llesiant i'r sir yn amlinellu'i amcanion lleol, y camau y mae'n bwriadu'u cymryd i'w cyflawni a sut y byddant yn cyfrannu tuag at wireddu'r nodau llesiant.

Mae aelodau BGC Sir Gâr yn uwch gynrychiolwyr o'r cyrff canlynol:

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys / Police and Crime Commissioner

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

CGGSG ~ CAVS

Heddlu•Police Dyfed-Powys

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

National Probation Service

Brecon Beacons National Park

Department for Work & Pensions


colegsirgâr

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Wales Community Rehabilitation Company – Prawf Probation – Gweithredir gan / Operated by Working Links

## Demograffeg

Mae gan Sir Gâr boblogaeth o

**185,610**



18%

32,846
rhwng 0 a 15 mlwydd oed

59%

110,102
o fewn oedran gweithio (16-64)

23%


Bron 1 ym mhob 4
(42,662) o oed pensiwn (65+)

90,835
yn ddynion
49%

94,775
yn fenywod
51%


Ganwyd 3 o bob 4
o boblogaeth Sir Gâr yng Nghymru

76%



**Mae poblogaeth Sir Gâr yn heneiddio.**

Erbyn 2039, bydd
1 ym mhob 3
o drigolion Sir Gâr yn
65 mlwydd oed
neu'n hŷn.



31%

58,900

Mae gan 1 ym mhob 4
salwch hirdymor sy'n cyfyngu

1 ym mhob 25

Mae Sir Gâr yn bennaf yn wyn, gyda 4% o'r boblogaeth o gefndir heb fod yn wyn

Yn Sir Gâr y ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef

78,048

Mae dros 78,800 o aelwydydd yn Sir Gâr, gyda dim ond un person yn byw yn

30%

ohonynt.

Mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardal wledig, sy'n ffurfio 53% o'r Sir

6 ym mhob 10

Mae **tair prif dref sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman** sy'n gartref i 25% o'r boblogaeth

25%

Mae 7 ym mhob 10 aelwyd wedi ei brynu (yn gyfan neu gyda morgais)

14%

yn rhentu'n gymdeithasol

10%

rhent preifat

44 o droseddau bob 1000 o'r boblogaeth

8166

o droseddau wedi eu cofnodi 2015/16

79%

yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal

Tudalen 35

# Economi

8 ym mhob 10

Mae bron 8 ym mhob 10 o boblogaeth oedran gweithio Sir Gâr (16-64) yn weithgar yn economaidd (62% fel cyflogeion; 12% hunangyflogedig)

79%, 89,600

63,000

o swyddi cyflogedig yn Sir Gâr

1 ym mhob 5

yn gweithio mewn cyfanwerthu a mân-werthu

1 ym mhob 5

yn gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol

13%

mewn gweithgynhyrchu

10%

yn addysg

7%

mewn gweinyddiaeth gyhoeddus

Mae 92% o fusnesau yn feicro fentrau (cyflogi llai na 10 o bobl)

£23,825 yw Incwm Aelwyd Canolrif Sir Gâr, o'i gymharu â chanolrif Cymru sy'n £24,944

Mae mwy na 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi, yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru - aelwydydd gyda llai na 60% o incwm canolrif y DU

(36%)

Croeso / Welcome

£370 milliwn

yw gwerth / cyfraniad twristiaeth i economi Sir Gâr


Mae 24,000 o bobl yn Sir Gâr yn darparu gofal di-dâl, mae hyn yn 13% o'r boblogaeth.

+50 awr

Mae dros 7000 yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl


# Iechyd a Llesiant

Mae disgwyliad oes yn ffafriol ar




78.5 bl
i ddynion

82.6 bl
i fenywod




7.4 : 10
yw sgôr cyfartalog ar gyfer 'bodlonrwydd bywyd', ar raddfa o 1 i 10


Mae
3 ym mhob 10
yn dioddef o faterion salwch meddwl




Nododd
60%
o oedolion eu bod dros-bwysau neu'n ordew (gan ddefnyddio mynegai mas y corff)



# Amgylchedd



40%
o'r boblogaeth yn byw o fewn 400m o ardal naturiol neu rhannol-naturiol gwyrdd

5,587
lleiafswm nifer yr eiddo yn Sir Gâr sydd mewn risg o lifogydd o ganlyniad i lefelau'r môr yn codi



# Diwylliant

Mae gan
83%
o aelwydydd Sir Gâr fynediad i'r rhyngrwyd



Dywedodd
68%
fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen gyda'i gilydd yn dda



Mae
2 ym mhob 3
yn cymryd rhan mewn chwaraeon
66%



Tudalen 37

## 5. Asesiad Llesiant Sir Gâr

Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghori, cyhoeddwyd Asesiad Llesiant Sir Gâr ym mis Mawrth 2017. Mae'r asesiad yn edrych ar gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Gâr drwy wahanol gyfnodau bywyd, ac yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol. Canfyddiadau'r asesiad hwn yw'r sylfaen i'r amcanion a'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Llesiant y sir, ac mae'r wybodaeth ganlynol yn yr adran 'Cipolwg ar Sir Gâr' yn rhoi darlun cyflym o'r Sir. Gellir gweld copi o Asesiad Llesiant Sir Gâr (2017) ar **www.ysirgaragarem.cymru**



## 6. Cynllun Llesiant Sir Gâr

Rhaid i'r BGC gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n nodi'i amcanion lleol er gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir a'r camau y mae'n bwriadu'u cymryd i'w cyflawni. Er i'r cynllun cyntaf hwn gael ei ddatblygu ar gyfer cyfnod 2018-2023, bydd yr amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn edrych ar gyflawni ar sail tymor hwy o hyd at 20 mlynedd.

Ar sail canfyddiadau asesiad llesiant Sir Gâr ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, bydd Cynllun Llesiant Sir Gâr yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar amcan:



### Arferion Iach

Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd



### Ymyrraeth Gynnar

Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn



### Cysylltiadau Cadarn

Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid



### Pobl a Llefydd Llewyrchus

Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

# 7. Ystyriaethau allweddol eraill

Yn ychwanegol at yr amcanion hyn, bydd Cynllun Llesiant Sir Gâr yn llwyr gefnogi a, lle mae'n bosibl, yn ychwanegu gwerth wrth i gynigion a phrosiectau sy'n cael eu datblygu drwy ddulliau eraill gael eu gwireddu.

## Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ffordd weddnewidiol o fynd ati i wireddu buddsoddiad o'r maint a'r natur sy'n ofynnol i gefnogi cynlluniau twf y rhanbarth, gyda buddsoddiad o £1.3 biliwn i gyd gan y sectorau cyhoeddus a phreifat dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r Fargen yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gyfnerthu rôl y rhanbarth ym maes arloesi technolegol ac i ddod yn arloeswr arweiniol yn datblygu a masnacheiddio atebion i rai o'r sialensiau mwyaf enbyd ym meysydd gwyddor bywyd a llesiant, arloesi digidol, ynni a gweithgynhyrchu clyfar. I'w gweithredu drwy un prosiect ar ddeg, bydd y Fargen Ddinesig yn arddangos cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol defnyddio atebion arloesi a thechnoleg ddigidol y genhedlaeth nesaf i symud economi'r rhanbarth ymlaen a denu diddordeb o du buddsoddwyr rhyngwladol tra, ar yr un pryd, yn parhau i ganolbwyntio ar ddinasyddion, gyda'i gwreiddiau yn naearyddiaeth ac asedau Dinas Ranbarth Bae Abertawe.

## Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Cafodd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o barhau i drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yng ngorllewin Cymru. Daw'r Bartneriaeth â'r tri awdurdod lleol yn y Gorllewin ynghyd (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Penfro), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector annibynnol ynghyd â chynrychiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr.

Mae'r Bartneriaeth wedi cyhoeddi'i Hasesiad Poblogaeth cyntaf i'r rhanbarth (sydd ar gael drwy http://www.wwcp.org.uk) a bydd yn gweithredu Chynllun Ardal i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr asesiad. Byddwn yn sicrhau bod gwaith y Cynllun Ardal a'r Cynllun Llesiant yn ategu'i gilydd lle bynnag y mae hynny'n bosibl.

## Cydbwysedd Amgylcheddol

Wrth ystyried amcanion llesiant poblogaeth Sir Gâr, mae'n holl bwysig ein bod yn canfod cydbwysedd amgylcheddol. Mae'n amgylchedd yn sylfaenol i ddiogelwch bwyd, cyflenwad dŵr, ansawdd aer, adnoddau adeiladu, economi a nifer o bethau eraill rydym yn eu cymryd yn ganiataol. Mae gwytnwch ecosystem yn golygu gallu ein hamgylchedd naturiol i ymdopi gyda'r pwysau hyn ynghyd ag unrhyw aflonyddwch a newid arall. Mae cyflawni gwytnwch ecosystem yn ymwneud â chreu c ychwanegu at gysylltiadau cadarn rhwng llefydd naturiol a sicrhau eu bod mewn cyflwr da. Mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein holl gamau gweithredu yn cael eu rheoli'n ofalus er mwyn hyrwyddo gwytnwch ecosystem a gweithio tuag fodel economaidd gyfan sy'n cymeradwyo ailgylchu, ail-ddefnyddio ac atgyweirio yn hytrach na gwaredu a dinistrio.

## Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cynnal a datblygu cymunedau cydlynol dwyieithog. Gyda bron i hanner y boblogaeth yn Sir Gâr yn siarad Cymraeg (y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru) mae'n rhaid i ni sicrhau fod cynllun a gweithrediad y gweithgareddau amrywiol a chamau gweithredu yn y cynllun hwn yn cofleidio'r iaith Gymraeg a diwylliant, a'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Amcanion Llesiant Cyrff Cyhoeddus

Nid diben Amcanion Llesiant BGC Sir Gâr yw ymdrin â gwasanaethau craidd a darpariaeth y partneriaid unigol, yn hytrach dylent eu gwella ac ychwanegu gwerth. Fel cyrff cyhoeddus sydd eu hunain yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi eu hamcanion llesiant eu hunain. Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn aelodau statudol o'r BGC a bydd y cynllun llesiant yn ystyried, lle mae'n briodol, sut y gall weithio ar y cyd i helpu i wireddu'r amcanion llesiant sefydliadol hyn. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r amcanion llesiant sefydliadol a osodwyd yn ystod 2017-18.

# 8. Sut y cafodd y camau gweithredu i gyflawni'r amcanion eu datblygu

Er mwyn datblygu'r camau gweithredu yn y cynllun hwn aed ati i ymgysylltu mewn ffordd aml-haenog. Mae adroddiad ymgysylltu llawn ar ganfyddiadau'r cyfnod ymgysylltu ar gael ar **www.ysirgaragarem.cymru**

Cynhaliwyd gweithdai gyda swyddogion grwpiau thematig, yna cynhaliwyd cyfres o weithdai mawr gyda staff rhwng flaen, rhanddeiliaid, cynghorwyr sir ac aelodau o'r cyhoedd mewn tri lleoliad ar draws Sir Gâr. Hefyd, cynhaliwyd gweithdai byrrach gyda grwpiau allweddol eraill, yn benodol gyda phlant a phobl ifanc, a'r Cynghorau Tref a Chymuned sydd eu hunain yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd arolwg ar-lein ar gael hefyd i unrhyw ymatebwyr nad oeddent yn gallu cyfrannu drwy'r gweithdai.

Cafodd yr holl adborth ei ystyried wedyn gan grŵp swyddogion y BGC a nodwyd y camau gweithredu.

Roedd y Cynllun Llesiant drafft yn destun ymgynghoriad 12-wythnos rhwng 11 Hydref 2017-3 Ionawr 2018 ac mae'r adborth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu pellach wedi ei ddefnyddio i hysbysu'r Cynllun terfynol.

# 9. Ffurf y Cynllun

Y disgwyl yw y bydd y BGC yn hoelio’i gyd-ymdrechion ar nifer fach o flaenoriaethau penodol yn y lle cyntaf er mwyn ychwanegu gwerth at y gwasanaethau sy’n cael eu darparu’n barod. Ar gyfer pob un o’r pedwar amcan rydym wedi nodi’r cyfiawnhad i’r amcan ar sail y pum Ffordd o Weithio. Wedyn rydym wedi rhestru’r camau gweithredu Tymor Byr (1-3 blynedd) a Thymor Canolig (3-7 mlynedd) ac uchelgais Tymor Hirach (7-20 mlynedd). Adnabuwyd rhain drwy’r cyfnod ymgysylltu a chynllunio fel camau y gall y BGC eu rhoi ar waith ar y cyd a thrwy weithio gyda rhanddeiliaid eraill.

Nid yw’r camau gweithredu a adnabuwyd yn cynnwys manylion llawn ac ystod y gweithgarwch sydd i’w gynnal i wireddu’r camau gweithredu tymor byr a chanolig a’r uchelgais tymor hirach, ond y bwriad yw y bydd y camau gweithredu tymor byr a chanolig yn gosod y sylfaen ar gyfer trawsnewid gwasanaeth neu newid ymddygiad tymor hirach.

Mae Cynllun Llesiant Sir Gâr wedi’i integreiddio’n llwyr. Mae cysylltiadau clir rhwng yr amcanion a’r camau gweithredu; mae rhai o’r rhain wedi’u mynegi’n amlwg ond rydym yn disgwyl y bydd synergeddau a chyfleoedd i integreiddio drwyddi draw ac y bydd y rhain yn dod yn fwy amlwg wrth i’r cynlluniau cyflenwi manwl gael eu diffinio.



# 10. Amcanion Llesiant Sir Gâr

Wrth ystyried sut mae gwireddu pob un o’r pedwar amcan llesiant rydym wedi sicrhau fod y pum ffordd o weithio wedi cynnig lens i edrych drwyddi wrth ddatblygu’r camau gweithredu. Er mwyn dangos yr ystyriaeth hon, rydym wedi nodi’r cyfiawnhad i’r amcan a sut mae bob amcan yn gwneud y mwyaf o’i gyfraniad i’r nodau llesiant cenedlaethol.

Dan bob un o’r camau gweithredu tymor byr rydym wedi nodi gorolwg o’r camau y bwriedir eu cymryd er mwyn gwireddu’r cam gweithredu ynghyd â phwy fydd yn gyfrifol am gymryd y camau hynny. Bydd y Grŵp Gweithredu ar gyfer bob un o’r camau tymor byr yn cael eu harwain gan ddau aelod o’r BGC; arbenigwr i gadeirio’r grŵp ac is-gadeirydd gydag arbenigedd gwahanol gall gynnig her, ymestyn a cheisio cyfleoedd ehangach. Mae’r cam gweithredu tymor canolig hefyd wedi ei nodi ac er bydd y ffocws cychwynnol ar wireddu’r camau tymor byr, ystyrir y cam gweithredu tymor canolig a’r uchelgais tymor hirach er mwyn sicrhau parhad a dilyniant.



Tudalen 42

# Arferion Iach

**Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd.**

## Bywydau Iach:

Mae gordewdra mewn plentyndod yn broblem fyd-eang, ond mae'n Hasesiad Llesiant Lleol yn dangos bod plant Sir Gâr, ar gyfartaledd, yn drymach na gweddill Cymru. Ni wyddom eto pa mor arwyddocaol fydd hyn dros amser ond ar hyn o bryd mae 30% o blant 4-5 oed a 60% o oedolion yn rhy drwm neu'n ordew ac mae hynny'n gallu arwain at gyflyrau corfforol ac iechyd cronig tymor hwy. Mae gennym hefyd fwlch sylweddol o ran disgwyliad oes rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig (18.5 mlynedd). Yn y tymor hir, bydd effeithiau'r clefydau cronig sy'n gysylltiedig ag iechyd gwael yn fwy a mwy difrifol i unigolion, ac i'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. I atal y sefyllfa hon rhag gwaethygu, mae angen i'r BGC helpu pobl i newid eu hagweddau a'u hymddygiad o ran iechyd personol, er mwyn i bawb gael gwell ansawdd bywyd. Mae gan y BGC ar y cyd gapasiti a gallu sylweddol i gyrraedd pobl gan fod ein sefydliadau, rhyngddynt, yn cyflogi canran fawr o'n poblogaeth. Mae'r BGC mewn sefyllfa dda felly i gyd-drefnu gweithredu ac annog pobl i helpu i hyrwyddo newid mewn ymddygiad ac i fod yn rhagweithiol wrth ystyried eu hiechyd presennol ac i'r dyfodol.

Cymru lewyrchus ✔ | Cymru gydnerth ✔ | Cymru iachach ✔ | Cymru sy'n fwy cyfartal ✔ | Cymru o gymunedau cydlynus ✔ | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ✔ | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ✔

## TYMOR BYR: Cyd-drefnu Ymgyrchoedd

Datblygu ffordd o alluogi ymgyrchoedd gwybodaeth wedi'u targedu i gael eu lledaenu'n gyson ac yn drylwyr ledled y sir gan holl bartneriaid a sefydliadau'r BGC. Byddwn yn datblygu ffyrdd arloesol o ymgysylltu'n well â phawb, pwy bynnag ydych ac o ble bynnag rydych chi'n dod.

## TYMOR CANOLIG: Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd

Caiff presgripsiynu cymdeithasol ei gydnabod fel ffordd i weithwyr proffesiynol gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth cymunedol, lleol, nad ydynt yn glinigol, yn lle rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn neu ymyrraeth gan wasanaeth. Byddwn yn adeiladu ar ganfyddiadau prosiect peilot yn Llanelli, yn ogystal ag ymarfer a thystiolaeth o fannau eraill, i sefydlu mynediad at y cyfleoedd hyn ar draws y sir.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn…

Byddwn yn dechrau trwy fapio ymgyrchoedd a ffyrdd o ymgyrchu presennol; byddwn yn datblygu fframwaith er mwyn cydlynu ymgyrchoedd gydag ystod o ddulliau a chyfleoedd posib ar gyfer ymgyrchu a chyd-gynhyrchu. Byddwn yn adnabod lleoliadau posib ar gyfer cynnal peilot i brofi a gwerthuso ymgyrchoedd a wedyn edrych i ehangu'r ymgyrchoedd effeithiol.

### Pwy fydd yn gwneud hyn…

Cynrychiolydd y BGC o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fydd Arweinydd arbenigol y Grŵp Gweithredu, gyda'r cynrychiolydd BGC o Goleg Sir Gâr yn is-gadeirydd. Bydd aelodau eraill yn cynnwys arbenigwyr Cyfathrebu a Dysgu o bartneriaid y BGC a thu hwnt ond bydd hefyd yn cynnwys arbenigwyr priodol a rhanddeiliaid addas ar gyfer ymgyrchoedd penodol I'w cydlynu.

## UCHELGAIS TYMOR HIRACH:

Bod dinasyddion Sir Gâr yn ymroi'n ddiwyd i ofalu am eu hiechyd eu hunain a, thrwy fwy o gysylltiad â natur, bydd ganddynt well llesiant, lefelau straen is a bydd eu hagweddau a'u hymddygiad yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.

# Arferion Iach

**Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd**

## Amgylchedd Iach:

Fel gweddill y byd, mae Sir Gâr o dan fygythiad oherwydd effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae ffyrdd hanesyddol a modern o fyw hefyd yn effeithio ar ein hamgylchedd a dangosodd ein Hasesiad Llesiant Lleol fod gennym rai o'r allyriadau CO2 gwaethaf yng Nghymru oherwydd trafnidiaeth. Nid ydym yn deall eto pa effaith benodol a gaiff yr agweddau hyn ar ein hamgylchedd yn y tymor hir ond rydym yn gwybod y bydd codiad yn lefel y môr, llifogydd, mwy o gyfnodau o dywydd eithafol a cholli cynefinoedd ac ecosystemau yn effeithio arnom. Ni all BGC Sir Gâr atal newid hinsawdd ond gall gydweithio ar lefel strategol i fabwysiadu newidiadau er mwyn ysgafnhau'r effaith ar ein sir. Hefyd, cydnabyddir bod natur yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant; mae'n gwella lefelau hapusrwydd, yn lleihau lefelau straen ac yn cynyddu agweddau ac ymddygiad cynaliadwy tuag at yr amgylchedd. Yn Sir Gâr, mae 40% o'r boblogaeth o fewn pellter cerdded byr i fan gwyrdd ond gallwn gwella ein 'cysylltiad â natur'. Mae'n dyngedfennol fod unigolion a chymunedau yn cael eu cynnwys ac yn cyfrannu i'r newid diwylliannol sy'n deillio o gynyddu'r cyswllt rhwng pobl a natur.



Cymru lewyrchus ✔ | Cymru gydnerth ✔ | Cymru iachach ✔ | Cymru sy'n fwy cyfartal ✔ | Cymru o gymunedau cydlynus ✔ | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ✔ | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ✔

### TYMOR BYR: Asesiad Risg Amgylcheddol

Cynnal *Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd* i Sir Gâr er mwyn datblygu camau gweithredu clir a phendant y gall unigolion, cymunedau a sefydliadau eu cymryd.

### TYMOR CANOLIG: Cryfhau Cysylltiad â Natur

Gyda chysylltiadau cryf â'r gweithredu ynghylch Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd, bydd y BGC yn rhestru mannau naturiol newydd, a'r rhai presennol, y gellir eu defnyddio i sicrhau mwy o gysylltiad â natur. Bydd y BGC yn hyrwyddo'r mannau hyn ac yn addysgu pobl fel eu bod yn deall pwysigrwydd caru natur.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn…

Unwaith byddwn wedi cynnal yr Asesiad Risg, byddwn yn datblygu Mecanwaith ar mwyn Gweithredu yr Asesiad Risg. Bydd hyn yn cynnwys adnabod rhanddeiliaid cymunedol allweddol; datblygu Ffordd o Weithio addas (allai gysylltu gyda Chyd-drefnu Ymgyrchoedd); a gweithredu Rhaglen Waith i ymateb i Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol a chryfhau cysylltiad â natur.

### Pwy fydd yn gwneud hyn…

Cynrychiolydd y BGC o Gyfoeth Naturiol Cymru fydd Arweinydd arbenigol y Grŵp Gweithredu, gyda chynrychiolydd y BGC o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn is-gadeirydd. Bydd aelodaeth y grŵp yn amrywiol gydag ystod eang o bartneriaid y BGC a thu hwnt ond bydd yn cynnwys arbenigwyr o flaen-gynllunio, trafnidiaeth a gwasanaethau seilwaith arall ynghyd ag arbenigwyr cyfathrebu.

### UCHELGAIS TYMOR HIRACH:

Bod dinasyddion Sir Gâr yn ymroi'n ddiwyd i ofalu am eu hiechyd eu hunain a, thrwy fwy o gysylltiad â natur, bydd ganddynt well llesiant, lefelau straen is a bydd eu hagweddau a'u hymddygiad yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.

## Ymyrraeth Gynnar

### Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn

Nododd yr Asesiad Llesiant Lleol nifer o sialensiau y mae unigolion yn eu hwynebu gydol eu bywydau, yn cynnwys dirywiad yn eu hiechyd corfforol a meddyliol, rhwydweithiau cymdeithasol a pherthnasoedd yn chwalu, newid mewn amgylchiadau economaidd a chael eu dal mewn cylch tlodi. Gall y goblygiadau tymor hir i lesiant unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau fod yn enfawr pan nad ydynt yn cael help neu gymorth ar yr adeg iawn, yn enwedig ym mlynyddoedd cynnar bywyd. Mae'n hynod bwysig deall y trothwyon neu'r pwyntiau trawsnewid; cydnabod ar ba bwynt y dylid darparu cymorth, ym mha ffordd a chan bwy. Anaml y gellir atal amgylchiadau'n llwyr, ond gellir cymryd camau i ymateb yn gyflym ac yn briodol i atal pethau rhag gwaethygu, neu i ysgafnhau'r effaith. Mae'r BGC yn cydnabod bod atal yn gyfrifoldeb ar bawb a bod y BGC mewn man delfrydol i sicrhau cyd-ymateb i'r agenda atal hon. Mae'n dyngedfennol, felly, fod pobl yn cael eu cynnwys ac yn cael llais yn yr hyn sy'n digwydd iddynt yn eu bywydau.

Cymru lewyrchus ✔ | Cymru gydnerth ✔ | Cymru iachach ✔ | Cymru sy'n fwy cyfartal ✔ | Cymru o gymunedau cydlynus ✔ | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ✔ | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### TYMOR BYR: Newid y Model Cyflenwi

Bydd y BGC yn trawsnewid y ffyrdd o gyflenwi gwasanaeth er mwyn galluogi unigolion, teuluoedd a chymuned i gymryd mesurau ataliol cynnar er mwyn eu llesiant eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, sefydlu un pwynt cyswllt er mwyn cael gafael ar wybodaeth, yn ogystal â datblygu rhaglen hyfforddi gyffredin i staff sy'n gweithio yn sefydliadau'r BGC, ar sail y drefn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn…

Byddwn yn dechrau trwy gymryd stoc o'r defnydd o'n gwasanaethau cyhoeddus; pa wasanaethau a ddefnyddir, pryd a chan bwy, beth yw'r trothwyon neu'r pwyntiau trawsnewid. Byddwn wedyn yn dadansoddi defnydd ac yn cyfateb hyn gyda'n dealltwriaeth o arferion i'r dyfodol. Byddwn wedyn yn gallu datblygu Rhaglen Ymateb; bydd hyn yn cynnwys dull cyfeirio ac ymyrraeth (hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif). Ceir cysylltiad cryf gyda Chyd-drefnu Ymgyrchoedd.

### TYMOR CANOLIG: Rhannu Gwybodaeth

Gan adeiladu ar y cam gweithredu tymor byr, byddwn yn sefydlu gweithdrefnau a system i barhau i gefnogi y newid wrth gyflenwi gwasanaeth ac i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd mesurau ataliol personol. Mae hyn yn cynnwys datblygu mecanwaith i sefydliadau'r BGC gydlynu a rhannu gwybodaeth allweddol er mwyn cynyddu capasiti a gallu partneriaid gwasanaeth cyhoeddus i helpu unigolion i gymryd camau ataliol cynnar.

### Pwy fydd yn gwneud hyn…

Cynrychiolwyr y BGC o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Gâr fydd Arweinwyr arbenigol y Grŵp Gweithredu. Bydd cynrychiolaeth o bob un o'r partneriaid y BGC ond byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill; er enghraifft bydd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru rhan allweddol wrth ddatblygu'r ymateb integredig.


### UCHELGAIS TYMOR HIRACH:

Bydd mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau yn sicrhau bod pobl yn cael yr help iawn ar yr adeg iawn, yn ôl y gofyn. Gallai hyn olygu ymatebion arloesol, yn lleol ac ar draws y sir, megis gwasanaethau teithiol neu gydleoli gwasanaethau.

# Cysylltiadau Cadarn

## Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid

Derbynnir bod ein rhwydweithiau cymdeithasol a'n cymunedau yn dyngedfennol i lesiant gydol ein bywydau, ac roedd hyn yn glir iawn yn ein Hasesiad Llesiant Lleol ac o'r adborth a gawsom yn ein digwyddiadau ymgysylltu. Mae llawer o bobl yn ymwneud llawer â'u cymunedau ond gallem wneud yn well. Mae cymunedau'n ddynamig, maent yn newid o ran eu cyfansoddiad ac mewn ymateb i bwysau, a chyfleoedd. Mae gwasanaethau'r sectorau cyhoeddus a phreifat hefyd yn newid yn barhaus, gan roi pwysau ychwanegol ar y sir. Mae angen inni helpu'n cymunedau i ddod yn gryf a mwy dyfeisgar yn y tymor hir. Bydd hyn yn atal newid rhag effeithio'n negyddol ar lesiant. Mae partner sefydliadau'r BGC yn cyffwrdd â phob cymuned yn y sir mewn rhyw ffordd. Drwy gydweithredu â grwpiau gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned, y sector preifat a llawer o grwpiau eraill, gall ein cymunedau fod yn llefydd llewyrchus, cydlynol, dwyieithog a hapus i fyw ynddynt. Mae ein cymunedau yn cynrychioli pawb, felly mae angen i bawb fod yn rhan o'r broses hon er mwyn llesiant unigol a chyfunol.




### TYMOR BYR: Asedau Cymunedol Arloesol

Bydd y BGC yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac unigolion i'w helpu i ddatblygu sgiliau a galluogi cymunedau i weithredu. Caiff adnodd ei sefydlu i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ddatblygu prosiectau wedi'u seilio yn y gymuned; datblygu cyfleoedd gwirfoddoli; a gwneud gwell defnydd o asedau'r gymuned, a'r sector cyhoeddus (corfforol a rhwydweithiau cymdeithasol) er budd cymunedau.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn…

Byddwn yn dechrau trwy ystyried Gwirfoddoli yn Sir Gâr; canfod modelau llwyddiannus ac arfer da wrth hyrwyddo gwirfoddoli ar draws partneriaid y BGC. Byddwn yn datblygu mecanwaith addas i Sir Gaerfyrddin i hyrwyddo gwirfoddoli ac i rannu arfer cymunedol da, gall hyn gynnwys achredu/cydnabod gwirfoddoli, datblygu fframwaith er mwyn troi gwirfoddolwyr yn weithwyr cyflogedig ac adnabod asedau, adeiladau a thir ar gyfer defnydd cymunedol.

### TYMOR CANOLIG: Cyflenwi Gwasanaethau mewn Ffordd Arloesol

Drwy ddealltwriaeth a deialog go-iawn, sicrhau cyd-gynhyrchu a chydweithredu rhwng cymunedau a sefydliadau i wneud yn fawr o'r capasiti/asedau, rhwydweithiau, a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu cynnal.

### Pwy fydd yn gwneud hyn…

Cynrychiolydd y BGC o Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr fydd Arweinydd arbenigol y Grŵp Gweithredu, gyda chynrychiolydd y BGC o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn is-gadeirydd. Yn ychwanegol i gynrychiolaeth gan bartneriaid y BGC, bydd gan y grŵp gynrychiolaeth benodol o bartneriaid Addysg ar gyfer achredu posib, ac o Eiddo er mwyn adnabod asedau cymunedol. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad er mwyn dod ag arbenigedd gwirfoddoli yn y sir ynghyd.


### UCHELGAIS TYMOR HIRACH:

Byddwn yn dathlu Sir Gâr, gyda'i holl amrywiaeth, drwy hyrwyddo agosatrwydd, cydlyniad a goddefgarwch.

# Pobl a Llefydd Llewyrchus

## Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

Canfu ein Hasesiad Llesiant Lleol fod 1 o bob 3 aelwyd yn byw mewn tlodi, a bod mwyafrif y rhain mewn ardaloedd gwledig. Mae gennym hefyd ganolfannau trefol sy'n wynebu sialensiau sylweddol, ac mae sawl cymuned yn dioddef tlodi o un genhedlaeth i'r nesaf. Mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi gwledig (cudd, yn aml) yn wynebu costau tanwydd uwch a'r gost a'r her ychwanegol sylweddol sy'n deillio o ddiffyg mynediad at wasanaethau, trafnidiaeth a chyflogaeth. Y duedd tymor hir yw y bydd costau tanwydd yn codi, ac mae'r anawsterau economaidd a hygyrchedd i'r rhai sy'n byw yn Sir Gâr wledig a'r rhai mewn mannau trefol yn dod yn fwy a mwy heriol. I ysgafnhau effaith hyn, ac i atal goblygiadau tlodi ar unigolion ac ar eu cymunedau, rhaid i'r BGC alluogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd i fyw bywydau llawn, a chefnogi gwaith i drawsnewid y seilwaith. Mae'r sgiliau a'r arbenigedd ar draws y BGC yn gyfle perffaith i ailddiffinio'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau yn Sir Gâr, yng ngoleuni'r ddealltwriaeth fwyaf diweddar a pherthnasol o lesiant gwledig .Bydd angen cynnwys y bobl yn ein cymunedau er mwyn iddynt gyfrannu a helpu i gyd-ddylunio'r modelau priodol ar gyfer Sir Gâr.




### TYMOR BYR: Addysg a Chyflogaeth

Deall yr anghenion cyflogaeth, y disgwyliadau a'r tueddiadau yn Sir Gâr i sicrhau bod y cwricwlwm addysg, cymorth arall a hyfforddiant yn cyd-fynd yn well i alluogi unigolion i ddatblygu sgiliau bywyd. Yn rhan o hyn bydd partneriaid y BGC yn datblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau, hyfforddiant llwybr carlam etc.

#### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn…

Byddwn yn ystyried anghenion presennol ac arferion i'r dyfodol o safbwynt ein gweithlu, ac yn datblygu ffyrdd o oresgyn rhwystrau a threfnu cyfleoedd addysg a chyflogaeth. Byddwn yn adnabod atebion posib o fewn addysg (addysg bellach ac uwch) ac o fewn y gweithle ar draws y BGC. Byddwn yn datblygu fframwaith i gefnogi symud tuag at Model cyflogaeth yn Seiliedig ar Gymwyseddau neu Gryfderau ar draws y BGC er mwyn galluogi cyflogaeth hyblyg.

#### Pwy fydd yn gwneud hyn…

Cynrychiolydd y BGC o Gyngor Sir Gâr fydd Arweinydd arbenigol y Grŵp Gweithredu, gyda chynrychiolydd y BGC o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn is-gadeirydd. Bydd gan aelodau eraill y grŵp arbenigedd penodol i fynd i'r afael â'r cam gweithredu hwn.

### TYMOR BYR: Gweithdrefnau Caffael

Bydd y BGC yn ceisio cyfleoedd i ailstrwythuro protocolau a gofynion caffael y sector cyhoeddus er mwyn cynnal a chynyddu mentrau lleol posibl.

#### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn…

Yn gyntaf, byddwn yn deall systemau caffael presennol yn ogystal â heriau a chyfleoedd presennol ac i'r dyfodol, wedyn byddwn yn symud y rhwystrau i fentergarwch cymunedol ac unigol a sefydlu ffyrdd newydd o weithio ar y cyd i gynnig cefnogaeth i alluogi symud ymlaen e.e. mewn ynni adnewyddadwy a hyrwyddo cyfleodd am fentergarwch gwledig.

### TYMOR CANOLIG: Seilwaith

Bydd y BGC yn gweithio gyda chymunedau i arloesi a chwilio am fodelau a dulliau newydd i wella seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol Sir Gâr h.y. cysylltedd band eang a ffôn symudol. Bydd y BGC yn ceisio darparu system drafnidiaeth gynaliadwy, gwbl integredig, sy'n diwallu anghenion ei bobl a'i gymunedau.

### UCHELGAIS TYMOR HIRACH:

Bydd pobl Sir Gâr yn llewyrchus yn economaidd ac yn ffynnu, ble bynnag y maen nhw'n byw yn y sir.

Er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn, credwn fod angen i'r BGC sefydlu'r trefniadau/dulliau cymorth isod:

- **Platfform Cyfathrebu**
  Er mwyn gwella cyfathrebu mewnol ac allanol y sector cyhoeddus, lleihau'r dyblygu ymdrechion, a'r dryswch i drigolion, caiff dull cyfathrebu cydlynus ei sefydlu i rannu gwybodaeth a rhoi negeseuon cyson ar draws rhwydweithiau partneriaid y BGC.

- **Canolbwynt Ymchwil a Thystiolaeth**
  Caiff Canolbwynt Ymchwil a Thystiolaeth ei sefydlu i sicrhau dysgu a rhannu'r arferion gorau, tystiolaeth a dealltwriaeth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Bydd yn monitro a gwerthuso'r hyn a wneir mewn perthynas â'r camau gweithredu yn y cynllun, gan gyfeirio drwy'r amser at ddealltwriaeth academaidd a dealltwriaeth seiliedig ar ymarfer i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu defnyddio bob amser. Bydd perthynas y canolbwynt â'r strwythur llywodraethu er rhoi'r cynllun ar waith yn cael ei chynnal yn barhaus; hefyd, bydd yn dryloyw i sicrhau craffu cyhoeddus.



# 11. Cyflenwi a Monitro

Sefydlir Grwpiau Gweithredu er mwyn gwireddu'r camau gweithredu tymor byr a adnabuwyd yn y Cynllun hwn. Y bwriad yw y bydd y camau gweithredu tymor byr a chanolig yn gosod y sylfaen ar gyfer trawsnewid gwasanaeth neu newid ymddygiad tymor hirach. Bydd bob un o'r Grwpiau gweithredu yn atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr a bydd cynnydd wrth wireddu'r amcanion yn cael ei fonitro yn rheolaidd. Darperir diweddariadau ar gynnydd ar y wefan www.ysirgaragarem.cymru

Fel rhan o'i waith wrth fynd ymlaen bydd y BGC yn parhau i adolygu unrhyw wybodaeth, data ac ymchwil ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol ynghyd â dysgu gwersi o brofiad mewn ardaloedd eraill.

# 12. Gwybodaeth Bellach

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am yr asesiad llesiant, y Cynllun neu gynnydd yng ngwireddu'r Cynllun hwn ewch i wefan www.ysirgaragarem.cymru neu cysylltwch â Thîm Cymorth y BGC ar **gwybodaeth@ysirgaragarem.cymru**

# Atodiad 1 — Amcanion llesiant cyrff cyhoeddus unigol sy’n aelodau statudol y BGC a osodwyd yn ystod 2017-18.

| | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cyngor Sir Gâr | Cyfoeth Naturiol Cymru | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwella iechyd y boblogaeth drwy waith atal ac ymyrryd yn gynnar | Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd | Hyrwyddo amgylchedd Cymru a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy | Gwella iechyd y boblogaeth drwy waith atal ac ymyrryd yn gynnar |
| 2 | Cynorthwyo pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach | Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw | Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig | Cynorthwyo pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach |
| 3 | Gwella effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau drwy gydweithredu â phobl, cymunedau a phartneriaid | Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwyr | Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau | Gwella effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau drwy gydweithredu â phobl, cymunedau a phartneriaid |
| 4 | Sicrhau gweithlu cynaliadwy, medrus a hyblyg er mwyn diwallu anghenion y GIG modern, sy’n newid | Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant | Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd | Sicrhau gweithlu cynaliadwy, medrus a hyblyg er mwyn diwallu anghenion y GIG modern, sy’n newid |
| 5 | Cyfrannu i’r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) newydd a’i weithredu | Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus | |
| 6 | Datblygu ymhellach ganfyddiadau Adolygiad Risg ac Asesiad<br>Strategol y Gwasanaeth | Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol, sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb beri difrod iddynt | |
| 7 | Adolygu a datblygu ein hymateb i lifogydd | Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf | |
| 8 | Cefnogi cynaliadwyedd economaidd o fewn ein cymuned fusnes | Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | | |
| 9 | Buddsoddi yn ein pobl | Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | | |
| 10 | Gwneud y defnydd gorau o’n hasedau a’n hadnoddau | Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | | |
| 11 | Digido - Defnyddio technoleg er mwyn arloesi, cydweithio a grymuso | Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin | | |
| 12 | Gwella’r ffordd rydym yn datrys digwyddiadau gweithredol drwy arloesedd<br>a’r defnydd o dechnoleg newydd | Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | | |
| 13 | | Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth | | |
| 14 | | Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant | | |

# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 26 Chwefror 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, L.M. Stephens, J. Tremlett, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, G. Davies and C.A. Campbell

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: J.S. Edmunds, D.M. Cundy, S.L. Davies, J.D. James, R. James, K. Lloyd and A.G. Morgan

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
M. Palfreman, Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
S. Davies, Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio
E. Hughes, Uwch Syrfewr Rheoli Asedau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.00 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E. Dole | 9 – Y diweddaraf am drosglwyddo asedau, sef Parciau, Lleoedd Chwarae, a Mannau Amwynder | Aelod o Gyngor Cymuned Llannon |
| G. Davies | 9 – Y diweddaraf am drosglwyddo asedau, sef Parciau, Lleoedd Chwarae, a Mannau Amwynder | Aelod o Gyngor Cymuned Cwarter Bach |
| P.M. Hughes | 13 – Cynllun Cyflawni Gwasanaethau 2017/18 - Gwasanaethau Diogelu'r Amgylchedd | Mae'n berchen ar fusnesau y bydd y Cynllun Cyflawni yn effeithio arnynt |

3. **COFNODION:-**

**3.1. 8FED IONAWR 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018, gan eu bod yn gywir.**

**3.2. 22AIN IONAWR 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2018, gan eu bod yn gywir.**

4. **CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. **CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. **ADRODDIAD YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2017 I RHAGFYR 31AIN 2017**

Yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 6 Chwefror, 2017 – gweler Cofnod 9), cafodd y Bwrdd Gweithredol y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gweithgareddau o ran Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

7. **Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YN YSGOL GYMUNEDOL GORSLAS O 110 I 210**

Yn unol â chofnod 6 o'i gyfarfod ar 23 Hydref 2017, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad am ganlyniad yr ymgynghori ffurfiol a fu'n digwydd rhwng 6 Tachwedd ac 17 Rhagfyr 2017 ar y cynigion i gynyddu nifer lleoedd Ysgol Gynradd Gymunedol Gorslas o 110 i 210 ar 1 Medi 2019, pryd y bwriedir y bydd adeilad newydd yr ysgol wedi cael ei adeiladu. Os caiff hyn ei fabwysiadu bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a hefyd yn darparu lle ar gyfer meithrinfa â 30 o leoedd a chyfleusterau dysgu ac addysgu sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol fod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant wedi cael cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2018, lle'r oedd wedi penderfynu "cymeradwyo i'r Bwrdd Gweithredol fod Hysbysiad Statudol


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

yn cael ei gyhoeddi i weithredu'r cynnig i gynyddu nifer lleoedd Ysgol Gynradd Gymunedol Gorslas o 110 i 210".

Petai'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, nodwyd mai'r bwriad oedd gwneud hynny yr wythnos sy'n dechrau ar 5 Mawrth 2018. Wedi hynny, byddai adroddiad sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau a gafwyd gan randdeiliaid yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, i'r Bwrdd Gweithredol ac, yn y pen draw, i'r Cyngor i wneud penderfyniad yn ei gylch.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**7.1 dderbyn y sylwadau a gafwyd ac ymatebion yr Awdurdod Lleol yn dilyn y broses ymgynghori.**
**7.2 bod Hysbysiad Statudol i weithredu'r cynnig yn cael ei gyhoeddi.**

## 8. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL PARC Y TYWYN DRWY GYNYDDU YR YSTOD OEDRAN O 4-11 I 3-11

Yn unol â chofnod 7 o'i gyfarfod ar 23 Hydref 2017, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad am ganlyniad yr ymgynghori ffurfiol a fu'n digwydd rhwng 6 Tachwedd ac 17 Rhagfyr 2017 ar y cynigion i safoni darpariaeth addysg feithrin yr awdurdod lleol yn ardaloedd Porth Tywyn a Phen-bre. Os gweithredir y cynnig byddai'r ystod oedran yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn ymestyn o 4-11 i 3-11 i adlewyrchu'r ddarpariaeth 3-11 yn y ddwy ysgol cyfrwng Saesneg sy'n rhannu'r un dalgylch â hi.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol fod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant wedi cael cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2018, lle'r oedd wedi penderfynu "cymeradwyo i'r Bwrdd Gweithredol fod Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi i weithredu'r cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn trwy gynyddu ei hystod oedran o 4-11 i 3-11".

Petai'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, nodwyd mai'r bwriad oedd gwneud hynny yr wythnos sy'n dechrau ar 5 Mawrth 2018. Wedi hynny, byddai adroddiad sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau a gafwyd gan randdeiliaid yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, i'r Bwrdd Gweithredol ac, yn y pen draw, i'r Cyngor i wneud penderfyniad yn ei gylch.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**8.1 dderbyn y sylwadau a gafwyd ac ymatebion yr Awdurdod Lleol yn dilyn y broses ymgynghori.**
**8.2 bod Hysbysiad Statudol i weithredu'r cynnig yn cael ei gyhoeddi.**

## 9. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL PARCIAU, LLEOEDD CHWARAE A LLECYNNAU AMWYNDER

(NODER: Roedd y Cynghorwyr E. Dole a G. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach)

Yn unol â chofnod 10 o'i gyfarfod ar 26 Mehefin 2017, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad diweddaru am drosglwyddo asedau, sef Parciau, Lleoedd Chwarae, a Mannau Amwynder yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd bod Atodiad A i'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran trosglwyddiadau a oedd wedi'u cwblhau (sef 51% o'r asedau dan sylw) a'r rheiny a oedd wrthi'n cael eu trosglwyddo (sef 35% o'r asedau dan sylw). Roedd Atodiad 2 yn nodi uchafbwyntiau ymgynghoriad pellach a wnaed gydag amrywiol randdeiliaid ar ddyfodol 23 o asedau lle nad oedd Mynegiannau o Ddiddordeb wedi dod i law erbyn Mehefin 2017. Nodwyd bod mynegiannau o ddiddordeb wedi dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw ar gyfer saith o'r asedau hynny a oedd yn y broses o gael eu trosglwyddo ar hyn o bryd. Felly, roedd 16 o asedau na chafwyd mynegiannau o ddiddordeb ar eu cyfer.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 a rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol am y defnydd a wneir o Le Chwarae Traeth Llansteffan gan yr ymwelwyr niferus sy'n dod i Lansteffan. Gwnaed cais i ohirio penderfyniad ynghylch y lle chwarae hwn am y tro a gofyn i'r Pennaeth Hamdden ymchwilio i gyfleoedd grant a gweld pa mor ymarferol yw hi i'r Cyngor gadw ei gyfrifoldeb dros y maes chwarae.

Cyfeiriwyd ymhellach at Atodiad 2 a gofynnodd y Bwrdd Gweithredol am i'r gwaith o ystyried Lle Chwarae Maesawelon, Dryslwyn gael ei ohirio am y tro fel bod modd ystyried ymhellach yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer ei ddyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 Nodi statws presennol yr amrywiol drosglwyddiadau i Gynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau eraill.**

**9.2 Cymeradwyo'r argymhellion ar gyfer dyfodol y 23 o asedau a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a fu'n destun ymgynghori pellach. Ond, gohirio ystyried Lle Chwarae Traeth Llansteffan a Lle Chwarae Maesawelon.**

## 10. TREFNIADAU RHANBARTHOL AR GYFER CRONFEYDD AR Y CYD AC INTEGREIDDIO GWASANAETHAU

Cafodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad i'w ystyried ynghylch y gwaith a wneir o dan fantell Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar Drefniadau Llywodraethu Rhanbarthol, Integreiddio Gwasanaethau a Chronfeydd ar y Cyd. Nodwyd ei bod yn ofynnol, o dan y Ddeddf, i'r holl awdurdodau lleol sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer cronfeydd ar y cyd mewn perthynas â'r canlynol:-

- arfer eu swyddogaethau o ran cartrefi gofal i oedolion (erbyn 6 Ebrill 2018);
- arfer eu swyddogaethau o ran cymorth i deuluoedd;
- swyddogaethau penodedig a arferir ar y cyd mewn ymateb i Asesiadau o'r Boblogaeth, lle ystyrir bod trefniadau o'r fath yn briodol.

Yn unol â'r gofynion uchod, nodwyd bod Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, a sefydlwyd o dan Ran 9 o'r Ddeddf, wedi rhoi blaenoriaeth i drefnu cronfeydd ar y cyd ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn erbyn y terfyn amser statudol, ac roedd y dull hwnnw'n gyson â llefydd eraill yng Nghymru.

Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith a wneir ynghylch Cronfeydd ar y cyd ar gyfer lleoliadau i oedolion mewn cartrefi gofal, Cronfeydd ar y cyd ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ac adolygu'r posibilrwydd o gyflwyno Storfa Offer Cymunedol Integredig ar raddfa ranbarthol.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion wedi cymeradwyo eu hadroddiadau ar gyllid ar y cyd a gofynnwyd iddo erbyn hyn ystyried cymeradwyo argymhellion yr adroddiad, mewn egwyddor, i'r ymagwedd ranbarthol at gronfeydd ar y cyd ar gyfer cartrefi gofal, y cronfeydd ar y cyd ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ac adolygu Storfeydd Offer Cymunedol.

Yn unol â Rheol 11.1 o Weithdrefn y Cyngor, mynegodd y Cynghorydd D. Cundy bryder ynghylch y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyllid ar y cyd, sefydlu rhith-gyllideb a'r angen am ddulliau craffu a rheoli cadarn. Am mai'r bwriad oedd y byddai'r cronfeydd ar y cyd ar waith o 2019-2020 ymlaen, mynegodd y farn nad oedd dyddiad gweithredu pendant, yn ôl pob golwg, ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i ddarparu ei wasanaethau gofal o ddydd i ddydd drwy gyllid o'r cyllidebau a glustnodwyd. Gofynnodd, felly, “A ellir rhoi sicrwydd bod y trefniadau presennol o ran y cyllid a ddyrennir i'r ddarpariaeth Cartrefi Gofal yn Sir Gaerfyrddin, ac yn enwedig yn Llanelli, sy'n filiynau lawer o bunnau, wedi'u neilltuo'n benodol ac nad ydynt yn rhan o'r cronfeydd ar y cyd yn rhanbarthol?”.

Dywedodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai'r gronfa ar y cyd yn ystod 2018/19 yn gweithredu fel trefniant unigol, yr adroddir yn ei gylch, ar gyfer lleoliadau oedolion hŷn a gomisiynir yn allanol. Yr uchelgais ar gyfer 2019-20 a thu hwnt oedd y byddai'r ddarpariaeth ‘fewnol’ yn cael ei thynnu i mewn i gylch gwaith y cronfeydd ar y cyd. Byddai hynny'n gofyn am sefydlu costau refeniw priodol ar gyfer lleoliadau mewnol unigol. Ar hyn o bryd nid oedd cynlluniau i ystyried cyfalaf yn y gronfa ar y cyd. Ar y sail honno, byddai'r penderfyniadau buddsoddi mewn perthynas â darparu llety yn fewnol yn parhau gyda'r awdurdod lleol. Roedd y Cyngor yn llwyr ymrwymedig i fuddsoddi rhagor o gyfalaf yn ei ddarpariaeth bresennol o ran cartrefi gofal, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn llwyr ag unrhyw ddarpariaeth newydd, yn enwedig yn ardal Llanelli.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol at y cynnig i sefydlu rhith-gronfa ar y cyd, a chadarnhaodd na fyddai honno'n cynnwys trosglwyddo arian i leihau'r risg o groes-gyllido a chostau gweinyddol, ac ati. Er bod disgwyliad clir gan Weinidogion y byddai'r cronfeydd ar y cyd ar waith erbyn 2019, rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am y pryderon a fynegwyd yn eu cylch ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i'w datrys. Cadarnhawyd hefyd y byddai adroddiadau pellach ar y trefniadau ar gyfer cronfeydd ar y cyd yn cael eu hadrodd i'r Cyngor drwy'r broses ddemocrataidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo mewn egwyddor yr ymagwedd ranbarthol at:**

- **Gronfeydd ar y cyd ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i oedolion**
- **Cronfeydd ar y cyd ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd;**
- **Adolygu Storfeydd Offer Cymunedol Integredig**

## 11. GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR I'R SAWL SY'N GADAEL GOFAL

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 10 Ionawr 2018, wedi mabwysiadu Rhybudd o Gynnig y "dylai pawb sy'n gadael gofal gael eu heithrio rhag y dreth gyngor hyd at 21 oed (gyda'r dewis o gynyddu'r oedran i 25 mewn amgylchiadau eithriadol)". Yn unol â'r penderfyniad hwnnw, ystyriodd y Bwrdd adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y cynigion o dan Adran 13A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 (a gyflwynwyd yn 2004) i eithrio pobl sy'n gadael gofal rhag talu'r Dreth Gyngor (ar ôl unrhyw ostyngiadau), heb fod angen prawf modd.

Pe bai'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol y byddai'r polisi arfaethedig yn darparu'r tri chategori canlynol o gymorth:

- Pan fyddai person sy'n gadael gofal yn gyfrifol yn bersonol am dalu'r Dreth Gyngor, naill ai'n gyfan gwbl neu ar y cyd â pherson arall (er enghraifft, fel cyd-denant neu'n byw gyda phartner), byddai'r cyfrifoldeb am dalu'r Dreth Gyngor, ar ôl unrhyw ostyngiadau, yn cael ei hepgor yn llawn gan adael dim i'w dalu;
- Pan na fyddai person sy'n gadael gofal yn gyfrifol yn bersonol am dalu'r Dreth Gyngor ond, pe na bai'n byw yno, y byddai'r person sy'n byw gydag ef neu hi yn gymwys am ostyngiad unig breswylydd o 25%. Mewn sefyllfaoedd o'r fath byddai'r person sy'n gadael gofal yn cael ei eithrio wrth gyfrif nifer y preswylwyr a byddai gostyngiad dewisol o 25% yn cael ei weithredu i sicrhau nad yw'r person sy'n gyfrifol am y dreth o dan anfantais.
- Pan fydd y cynnig yn ymwneud â sefyllfa lle'r oedd person sy'n gadael gofal wedi cael gofal blaenorol rhywle arall ac wedi symud i Sir Gaerfyrddin, a'i fod yn gyfrifol yn bersonol am dalu'r dreth gyngor i'r cyngor hwn. Lle byddai achosion o'r fath yn dod i sylw'r Adran Dreth Gyngor, cynigiwyd y byddai statws y person sy'n gadael gofal yn cael ei wirio gan dîm rhianta corfforaethol y Cyngor. Wedyn byddai argymhelliad o ran unrhyw ostyngiad i'r person hwnnw yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol fod y Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor yn cyfeirio at ymestyn yr eithriad i'r rhai o dan 25 oed sy'n gadael gofal a hynny mewn amgylchiadau eithriadol. Ond cynigiwyd hefyd, o ystyried y niferoedd isel iawn sy'n gysylltiedig, fod y polisi'n cael ei weithredu yn achos pob un hyd at 25 oed sy'n gadael gofal ac sy'n dal i ymwneud â'r tîm rhianta corfforaethol. Gellid talu am y gost yn gyffredinol drwy'r lwfans sy'n rhan o'r cyfrifiadau ar gyfer pennu Sylfaen y Dreth Gyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL BOD Y CYNGOR YN MABWYSIADU POLISI sy'n eithrio'r rhai sy'n gadael gofal, o 18 hyd at 25 oed, rhag talu'r Dreth Gyngor.**

## 12. PANELAU YMGYNGHOROL Y BWRDD GWEITHREDOL

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad am y gyfansoddiad rhai o'i fyrddau ymgynghorol yn dilyn newidiadau diweddar i gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor cyfan.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 Bod y newidiadau canlynol o ran Cynrychiolaeth y Grŵp Annibynnol ar y Panel Ymgynghorol yn cael eu cymeradwyo: Bod y Cynghorydd Sue Allen yn cymryd lle'r Cynghorydd Andrew James ar y Gweithgor Cefn Gwlad; Bod y Cynghorydd Edward Thomas yn cymryd lle'r Cynghorydd Andrew James ar Fforwm y Gymraeg mewn Addysg**

**12.2 Nodi bod y ffigurau ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol y Fforwm Addysg - Derbyn Disgyblion wedi newid ac y byddai'n rhaid i'r Grŵp Llafur ildio un sedd (ynghyd â sedd dirprwy) i Grŵp Plaid Cymru: h.y:**

**Roedd y Grŵp Llafur wedi ildio'r seddi a oedd yn cael eu dal gan y Cynghorydd Louvain Roberts a Fozia Akhtar (dirprwy) ac roedd Plaid Cymru wedi enwebu'r Cynghorydd David Thomas, sef aelod dirprwyol ar y pryd, i lenwi'r sedd ychwanegol a'r Cynghorwyr Emlyn Schiavone a Susan Phillips fel y ddau ddirprwy ychwanegol.**

## 13. CYNLLUN CYFLAWNI GWASANAETH 2017/18 - ADRAN DIOGELU'R AMGYLCHEDD

(SYLWER: Gan iddo ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd P.M Hughes y cyfarfod tra oedd y Bwrdd Gweithredol yn ei thrafod)

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Cynllun Cyflawni Gwasanaeth 2017/18 Adain Diogelu'r Amgylchedd a luniwyd yn unol â gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar awdurdodau lleol i lunio Cynllun Cyflawni Gwasanaeth blynyddol yn y ffurf a nodir yn y Cytundebau Fframwaith perthnasol. Roedd y Cynllun yn amlinellu nodau ac amcanion gwasanaeth y Cyngor gan gynnwys dolenni cyswllt i'r amcanion a'r cynlluniau corfforaethol a diffiniad o'i seilwaith a'i strwythur economaidd a threfniadaethol. Hefyd roedd yn amlinellu cylch gwaith a gofynion Gwasanaethau Diogelu'r Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Cyflawni Gwasanaeth 2017/18 Adran Diogelu'r Amgylchedd.**

## 15. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 16. HWB RHYDAMAN

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 15 uchod,**

**ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig a geir yn yr adroddiad. Gallai hynny danseilio'r Cyngor mewn trafodaethau dilynol a chael effaith wael ar y pwrs cyhoeddus.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar gynigion i sefydlu Gwasanaeth Hwb newydd yng Nghanol Tref Rhydaman gan gopïo'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghanol Tref Llanelli.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo bod adeilad yng nghanol tref Rhydaman yn cael ei brynu a'i ddatblygu i ddarparu gwasanaeth Hwb newydd yn y dref, a dyrannu'r adnoddau cyfalaf a refeniw sydd eu hangen.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 26 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, L.M. Stephens, J. Tremlett, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, G. Davies a C.A. Campbell

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: J.S. Edmunds, D.M. Cundy, S.L. Davies, R. James a B.A.L. Roberts

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
M. Palfreman, Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
